

Rheoli Tir yn Gynaliadwy
Adran Amaeth a Materion Gwledig
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UR

26 Mawrth 2014

Annwyl Syr/Fadam

CYNIGION AR Y CYNLLUN GLASTIR; RHAN O GYNLLUN DATBLYGU GWLEDIG CYMRU 2014-20

Diolch i chi am ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru ar y newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Glastir. Fel sydd wedi'i fynegi yn ein hymateb manwl, rydym yn croesawu llawer o'r cynigion gan Lywodraeth Cymru.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithio fel rheoleiddiwr, partner a chynghorydd i fusnesau anllywodraethol, Awdurdodau Lleol a chymunedau i helpu i gyflenwi polisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd. Bydd ein dull gweithredu'n un o hyrwyddo datblygiad cynaliadwy sy'n cyflenwi manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i bobl Cymru.

Cynyddu derbyniad arferion rheoli tir yn gynaliadwy yw un o'r sialensiau mwyaf sy'n wynebu Cymru'n awr¹. Glastir sydd i gyfrif am fwyafrif y gwariant dan y Cynllun Datblygu Gwledig (CDG) ac rydyn ni'n croesawu'r bwriad i barhau â'r strategaeth hon yn ystod 2014-20. Bydd teulu cynlluniau Glastir yn ganolog i gyflenwad Cynlluniau Adnoddau Naturiol, yn tanategu yn ei dro'r ddarpariaeth o ystod eang o fanteision amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol i bobl Cymru. O ganlyniad, rydyn ni'n llwyr gefnogi'r penderfyniad i barhau â'r cynllun tra rydym yn gwneud addasiadau priodol yng ngoleuni gwersi a ddysgwyd.

¹ *NRW evidence to National Assembly for Wales Inquiry into Sustainable Land Management, 29th January 2014. Accessible at:*

Rydyn ni'n cefnogi'r cynigion ar gyfer defnydd mwy targedol o gymorth amaethyddol-amgylcheddol -hinsawdd dan y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf. Bydd caniatáu mynediad uniongyrchol i ffermwyr i'r Glastir Uwch yn ogystal â'r Mesurau Buddsoddi newydd, yn helpu i ganolbwyntio'r cynllun ar gyflenwi yn erbyn ymrwymadau presennol Llywodraeth Cymru o ran bioamrywiaeth; tirweddau diwylliannol; lliniariad newid yn yr hinsawdd; rheoli'r risg o lifogydd; iechyd pridd, ac ansawdd dŵr. Er ein bod ni'n cytuno â'r bwriad o gadw Glastir Sylfaenol yn y tymor byr, dylid addasu'r rhan yma o'r cynllun wedyn fel ei fod yn gwneud cyfraniad mwy i reolaeth adnoddau naturiol integredig.

Credwn y bydd mwy o bwyslais ar drosglwyddo a hyrwyddo gwybodaeth a'r defnydd o ddulliau cydweithredu'n dod â manteision amgylcheddol arwyddocaol. Mae'n hanfodol bwysig fod pob rheolwr tir yn deall y rhesymeg sy'n sail i ofynion y cynllun ac y gallan nhw gyrchu'r cyngor sydd ei angen wrth wneud cais ac ar ôl arwyddo contract.

Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru, mewn egwyddor, yn barod i gyfrannu tuag at y broses o drosglwyddo gwybodaeth drwy ddarparu gwasanaeth ymgynghorol yn seiliedig ar swyddog dalgylch i gynnwys elfennau coedwigaeth a chreu coetir Glastir. Byddai angen i wasanaeth felly fod yn rhan o bartneriaeth ehangach sy'n cynnwys staff Glastir Llywodraeth Cymru, cyrff anllywodraethol a'r sector breifat. Dim ond os byddai costau llawn gwasanaeth newydd fel hyn yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru (gan ddefnyddio darpariaethau'r trosglwyddiad gwybodaeth, erthyglau cyngor a chydweithrediad o fewn Rheoliad Datblygu Gwledig newydd y Gymuned Ewropeaidd), y bydden ni'n gwneud hyn. Bydd angen trafodaeth bellach i egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau.


Yn dilyn trafodaethau diweddar yng Ngrŵp Llywio Iechyd Coed Llywodraeth Cymru, rydym yn deall y gallai Cyfoeth Naturiol Cymru gael cyfrifoldeb newydd i wneud gwaith monitro, gwyliadwriaeth a gwaith cynghori o ran clefydau coed. Os felly, bydd lefel briodol o gymorth ariannol i Gyfoeth Naturiol Cymru yn ofynnol eto. Byddai unrhyw waith a wneid yn ôl unrhyw ddyletswydd felly'n elwa'r sector breifat yn naturiol yn ogystal ag Ystâd Goed Llywodraeth Cymru.

O ystyried graddfa ddigynsail heintiad coed llarwydd â *Phytophthora ramorum* yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf, rydyn ni'n awyddus i barhau i archwilio opsiynau ariannu o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer rhaglen gadarn o blannu coed sy'n berthnasol i'r sector breifat ac Ystâd Goed Gyhoeddus Llywodraeth Cymru.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n awyddus i barhau i weithio â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill yn ystod datblygiad y cynllun Glastir newydd. Ar yr un pryd, fe wnaem barhau i chwarae ein rhan yn cynorthwyo gyda chyflenwi'r cynllun cyfredol, yn enwedig o ran cysyniadau Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, cynlluniau rheoli lefelau dŵr a gwahanol brosesau cymeradwyo sy'n ymwneud â phlannu a rheoli coetiroedd.

Cysylltwch â brian.pawson@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk os hoffech chi drafod unrhyw agwedd ar ein hymateb mewn mwy o fanylder.

Yn gywir,



EMYR ROBERTS

Prif Weithredwr, Cyfoeth Naturiol Cymru
Chief Executive, Natural Resources Wales

emyr.roberts@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Natural Resources Wales,
Ty Cambria, Newport Road, Cardiff CF24 OTP

Cyfoeth Naturiol Cymru
Ty Cambria, Heol Casnewydd, Caerdydd CF24

Crynodeb o Ymateb gan
Gyfoeth Naturiol Cymru/Natural Resources Wales

1. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu'r cynnig i ddyrannu isafswm o 60% o gyllideb y CDG i'r mesurau ardal (sy'n cynnwys amaeth-amgylchedd-hinsawdd, organig, coedwigaeth a Natura 2000/Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a Chyfarwyddeb Llifogydd). Credwn ei bod hyn hanfodol bwysig sicrhau fod cyllid digonol ar gael i gyrraedd targedau amgylcheddol Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd. Awgrymai ymchwil blaenorol fod graddfa'r ymyriad sydd ei angen i gyfarfod ag amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer bioamrywiaeth; tirweddau diwylliannol; lliniaru'r newid yn yr hinsawdd; rheoli'r risg o lifogydd; iechyd pridd ac ansawdd dŵr yn dod yn £165M y flwyddyn². Mae hyn oddeutu dwbl y swm sy'n debygol o gael ei ddyrannu dan y rhaglen amaeth-amgylchedd-hinsawdd newydd ar gyfer 2014-2020.

² "Estimating the Scale of Future Environmental Land Management Requirements for the UK". Cao, Y., Elliott, J., McCracken, D., Rowe, K., Whitehead, J. and Wilson L. Report to Land Use Policy Group by ADAS & Scottish Agricultural College. December 2009.

2. Rydyn ni'n cefnogi cynigion Llywodraeth Cymru i resymoli'r fframwaith o gymorth amaeth-amgylchedd dan y CDG nesaf. Yn benodol, bydd caniatâu cyrchiad uniongyrchol i ffermwyr i'r Glastir Uwch a'r Mesurau Buddsoddi'n helpu i ganolbwyntio'r cynllun ar y problemau amgylcheddol mwyaf dybryd. Rydyn ni hefyd yn cefnogi'r cynnig i gyflwyno cynllun sengl ar gyfer tir comin ac ar yr un pryd yn cyflwyno mwy o hyblygrwydd wrth drafod dwysedd stocio. Dylai'r dull yma helpu i gynhyrchu canlyniadau amgylcheddol yn ogystal â lleihau costau gweinyddol.

3. Rydyn ni'n croesawu'n fawr iawn y cynigion i wella ymgysylltiad â rheolwyr tir, yn enwedig cyflwyniad hwyluswyr i weithio ag ymgeiswyr Glastir potensial. Dylai ymgysylltu cynnar â rheolwyr tir helpu i gynyddu'r nifer sy'n derbyn Glastir ac ansawdd y canlyniadau dilynol. Dylai defnyddio Swyddogion Datblygu Gwledig i hwyluso mwy o gydweithrediad wella'r rhagolygon o enillion gwirioneddol ar raddfa dalgylch, cynorthwyo â phroses Cynllunio Rheolaeth Cyfoeth Naturiol a dyheadau'r Bil Amgylchedd arfaethedig.

4. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n barod, mewn egwyddor, i gyfrannu i'r broses o drosglwyddo gwybodaeth drwy ddarparu gwasanaeth cynghori gan swyddog dalgylch i ddelio ag elfennau creu coedwigoedd a choetiroedd Glastir. Byddai angen i wasanaeth felly fod yn rhan o bartneriaeth ehangach yn cynnwys staff Glastir Llywodraeth Cymru, cyrff anllywodraethol a'r sector breifat. In principle, Natural Resources Wales is prepared to contribute to the knowledge transfer process by providing a catchment officer based advisory service to cover the forestry and woodland creation elements of Glastir. Such a service would need to be part of a wider partnership comprising the Welsh Government's Glastir staff, NGOs and the private sector. Dim ond os byddai costau llawn gwasanaeth newydd fel hyn yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru (gan ddefnyddio darpariaethau'r trosglwyddiad gwybodaeth, erthyglau cyngor a chydweithrediad o fewn Rheoliad Datblygu Gwledig newydd y Gymuned Ewropeaidd), y bydden ni'n gwneud hyn. Bydd angen trafodaeth bellach i egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau.

5. Er ei bod yn amlwg y gellid cyflawni enillion effeithlonrwydd sylweddol drwy ddefnyddio system ar-lein i gyrchu Glastir, rydyn ni'n pryderu o feddwl efallai mai dyma fydd yr unig ffordd o wneud cais yn y dyfodol. Mae gwasanaeth band eang cyflym ar draws ardaloedd gwledig Cymru'n dal yn anghyson ac mae'n bosib iawn y bydd angen hyfforddiant ar rai rheolwyr tir i sicrhau eu bod â'r sgiliau TG sy'n angenrheidiol.

6. Rydyn ni'n cytuno â'r bwriad i gadw Glastir Sylfaenol yn y tymor byr, ond gallai'r rhan yma o'r cynllun wneud mwy i gynorthwyo Llywodraeth Cymru i gyrraedd targedau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer dŵr, bioamrywiaeth a newid yn yr hinsawdd. Mae atebion posib yn cynnwys cysylltu'r broses o gymhwyso â blaenoriaethau gofodol (y "dewis cyfeiriedig" fel y'i gelwir) neu gyplysu'r derbyniad o opsiynau llai ymdrechgar â'r rheiny sy'n cyflenwi lles amgylcheddol mwy (y dull "dewislen").

7. Mae'n bosib iawn y bydd angen rhyw gynllun Lefel Sylfaenol o hyd yn y tymor hir, yn rhannol fel mesur rhagarweiniol, ond hefyd efallai na fydd taliadau Glastir Uwch yn ddigon atyniadol ynddynt eu hunain pan gânt eu cymhwyso i ardaloedd cymharol fychan o fewn ffermydd llawer mwy. Yn ogystal, mae rhai mathau o warant fferm yn cynnwys gofyniad i gyfranogi mewn cynllun amaeth-amgylchedd a dylid gwneud darpariaeth resymol i gynorthwyo ffermwyr â'r mathau hyn o ymrwymadau.

8. O ran rhai o'r opsiynau cynnal mwy poblogaidd, rydyn ni'n parhau i fod â phryderon sylweddol ynglŷn â'r defnydd o 15B a 15D ar laswelltir wedi'i ledwella. Yn ogystal, lle bydd opsiynau sy'n cael eu defnyddio'n llai aml â'r potensial o gyflenwi lles amgylcheddol sylweddol, credwn y dylid eu cadw. Rydyn ni'n cytuno â'r angen i gynyddu apêl Pecynnau Rhanbarthol a byddem yn croesawu'r cyfle i gynghori ymhellach ar eu dyluniad. Mae cadw'r system bwyntiau £34/he/34 o ad-daliad yn cynrychioli ffordd bragmatig ymlaen, ond dylid adolygu unrhyw benderfyniad ar y mater yma'n gyfnodol. Fe groesewir datblygiad system flaenoriaethu a dylai sicrhau fod pob contract yn cyfrannu tuag at gyrraedd targedau amgylcheddol Llywodraeth Cymru.

9. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cytuno â'r cynigion i gefnogi buddsoddiadau cyfalaf dan y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf. Bydd cynllun sengl o gymorth i foderneiddio â chyfraddau ariannu uwch i ffermwyr ifanc a newydd-ddyfodiaid yn cynorthwyo rheolwyr tir i ddatblygu seilwaith iard fferm sy'n gryfach; darparu canlyniadau gwell o ran dŵr, ansawdd aer ac allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (NTG). Bydd defnyddio offerynnau ariannol gwahanol fel benthyciadau'n gwella cyrhaeddiad cyllid y Cynllun Datblygu Gwledig ac fe allai hefyd helpu i ddenu cyfranogwyr newydd. Rydyn ni hefyd yn croesawu'r cynllun "grantiau bychan" arfaethedig. Dylai hyn ddarparu ffordd fwy hyblyg o gefnogi ystod eang o welliannau amgylcheddol mewn amrywiaeth o leoliadau. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu'r cyfle i gynorthwyo â datblygiad y cynllun hwn ymhellach.

10. Rydyn ni'n cefnogi cynigion Llywodraeth Cymru i ddefnyddio mesurau amaeth-amgylchedd i wella cynaladwyedd yr ucheldir. Mae yna groeso i lefelau stocio lleiaf, mwy o hyblygrwydd mewn patrymau pori a mwy o anogaeth i bori cymysg. Mae dull presennol Glastir o osod patrymau pori ar sail dymhorol weithiau'n methu â chyrraedd amcanion amgylcheddol, ac nid yw chwaith wedi'i siwtio i arferion ffermio cyfredol. Fodd bynnag, efallai y byddai'n bosib delio â'r ddau amcan yma drwy ddefnyddio cyfuniad o lefel stocio cyfartalog blynyddol â dull mwy hyblyg o ran lefelau stocio uchaf a gymhwysir yn ystod unrhyw un tymor.

11. Rydyn ni'n cefnogi creu haen wrthrychol Glastir Uwch ar gyfer tir ffermio amgaeedig sydd dros 400m gan y bydd yn helpu i sicrhau mwy o gydraddoldeb rhwng cominwyr a ffermwyr unigol o fewn y parth rhostir newydd. Bydd targedu arfaethedig y Cynllun Grantiau Bach i reoli gorchudd rhedyn parhaus yn rhoi cyfleoedd ar gyfer coetir newydd. Fodd bynnag, dylai fod yn amodol ar gyflwyniad mesurau diogelu digonol yn amgylcheddol ac yn ariannol.

12. Rydyn ni'n cytuno â'r cynnig i ddyfarnu contractau Rheolaeth Coetir Glastir ar sail dreigl yn y dyfodol ac yn croesawu'r bwriad i adolygu'r Map Cyfleoedd Coetir. Bydd yr adolygiad arfaethedig yn rhoi cyfle i ailystyried ym mhle y gall plannu newydd roi'r gefnogaeth orau i gyflenwad ystod o wasanaethau ecosystem. Rydyn ni hefyd yn croesawu'r rhagolwg o fuddsoddiad mewn Busnesau Bach a Chanolig coedwigaeth yn ogystal â'r cynigion i adfer coetir.

13. Yn dilyn trafodaethau diweddar yng Ngrŵp Llywio Iechyd Coed Llywodraeth Cymru, rydym yn deall y gallai Cyfoeth Naturiol Cymru gael cyfrifoldeb am ddyletswydd newydd i gynnal gwaith monitro, gwyliadwriaeth a gwaith cynghorol mewn perthynas ag afiechyd coed. Os digwydd hynny, bydd angen lefel priodol o gymorth ariannol ar Gyfoeth Naturiol Cymru dan y Cynllun Datblygu Gwledig newydd. Bydd yr holl waith a wneir yn unol ag unrhyw ddyletswydd felly o fudd i'r sector breifat yn naturiol yn ogystal ag Ystâd Goed Llywodraeth Cymru.

14. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, mewn egwyddor, yn cefnogi'r cynnig i gynnal gorchudd coedwig sy'n bod yn barod drwy gefnogi ail-blannu clystyrau coed sydd wedi'u heffeithio ag afiechyd yn hytrach na chreu coetiroedd newydd. Dylid targedu rhaglenni adfer yn yr ardaloedd hynny lle mae ailblannu a dychweliad i glwstwr coed yn flaenoriaeth. Dylid trefnu grant ail-stocio sy'n hawdd ei gyrchu i gynorthwyo perchnogion a rheolwyr coetiroedd preifat i ofalu fod yr holl ailblannu mor gydnerth ag sydd bosib. O ystyried graddfa ddigynsail heintiad *Phytophthora ramorum* coed llarwydd yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf, byddai'n fanteisiol pe gellid defnyddio darpariaethau Coedwig y Wladwriaeth o fewn y Rheoliad Datblygu Gwledig newydd i ddelio ag unrhyw danwario yn y gyllideb coetiroedd.

15. Bydd targedu ymyriadau'n effeithiol yn hanfodol i lwyddiant y CDG nesaf. Rydyn ni'n croesawu'r cynnig i asesu'r graddau y mae contractau Glastir Uwch yn cyfarfod â blaenoriaethau amgylcheddol. Dylai prosiect parhaus Monitro a Gwerthuso Glastir Llywodraeth Cymru gynorthwyo'n sylweddol â'r ymarferiad hwn. Rydyn ni'n gefnogol iawn hefyd o'r cynnig i adolygu cyfarwyddyd presennol y Rheolwr Contract a byddem yn falch o gyfrannu i unrhyw ymarferion hyfforddi yn y dyfodol.

16. Er ei bod yn synhwyrol gwerthuso ansawdd haenau GIS ('Geographic Information System') presennol a ddefnyddir o fewn Glastir Uwch, credwn y byddai'n fwy ffrwythlon gwella cywirdeb rhai o'r haenau mwy problematig yn y lle cyntaf. Rydyn ni'n dal yn bryderus yn benodol ynglŷn â'r potensial o effeithiau amgylcheddol gwrthnysig os ydyn ni i roi'r gorau i'r gofyniad i nodi gweithgaredd rheoli ar gyfer pob un o'r haenau GIG hynny sydd ddim yn bodloni meini prawf "amcan sylfaenol". Mae llawer o'r haenau hyn yn gysylltiedig â Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a rhywogaethau Adran 2 ac maen nhw'n arbennig o berthnasol i fentrau eraill Llywodraeth Cymru fel Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio.

17. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu'r cynnig i ddatblygu cynllun rhwydwaith cynefin ar gyfer rhan o'r fferm yn ystod y CDG nesaf ac rydyn ni'n

awyddus i gyfrannu i'r broses o ddylunio. Rydyn ni'n cefnogi dyhead Llywodraeth Cymru i sefydlu dull ariannu Taliadau am Wasanaethau Ecosystem (PES) o fewn Glastir. Dylai datblygiad PES olygu mwy nag ailbecynu mentrau sy'n bod yn barod; dylai anelu'n hytrach i symbylu arloesiad a chyfluoedd newydd, creu marchnadoedd newydd a chynnwys cyfranogwyr newydd. Rydyn ni felly'n croesawu'r cynnig i alinio gofynion Creu Coetir Glastir â gofynion y Cod Carbon Coetiroedd.

18. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi pob un o'r targedau strategol arfaethedig ar gyfer Glastir, ond teimlwn y gellid rhoi mwy o bwyslais ar yr angen i ddelio â'r risg o lifogydd. Yn seiliedig ar dystiolaeth o brosiectau fel Pontbren, mae mesurau rheoli tir ar raddfa fechan fel plannu coed sydd wedi'u lleoli'n ofalus, eisoes wedi'u blaenoriaethu o fewn Glastir Uwch. Mae'r haen GIS berthnasol hefyd yn nodi dalgylchoedd lle bydd ardaloedd storio dŵr ychwanegol ac adfer gwlyptir yn helpu i leihau'r risg o lifogydd a gwella ansawdd dŵr.

19. Rydyn ni'n cefnogi'n gryf gynnig Llywodraeth Cymru i leihau'n sylweddol lefel gwariant ar greu a rheoli coetir dan y CDG nesaf. Dylai hyn alluogi cyflenwad ystod eang o ganlyniadau amgylcheddol mewn ffordd integredig. Gall plannu newydd sydd wedi'u lleoli'n ddoeth greu ystod eang o fanteision amlswyddogaethol. Dylai mwy o bwyslais ar Gynllunio Rheolaeth Coedwig helpu i wella ansawdd canlyniadau economaidd ac amgylcheddol, yn enwedig o fewn y coetiroedd llydanddail hynny sydd ddim yn cael eu rheoli ar hyn o bryd.

1. Ymateb Manwl i Gwestiynau Ymgynghoriad

C1: Ydych chi'n cytuno â chynigion Llywodraeth Cymru i resymoli fframwaith y cymorth amaeth-amgylchedd dan y CDG nesaf?

1.1. Dileu'r angen i ymuno â Lefel Sylfaenol cyn cyrchu'r elfennau Glastir uwch.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi'r cynnig hwn, yn amodol ar gyflwyno diogelwch digonol.

Bydd sicrhau fod Glastir Uwch a buddsoddiadau cyfalaf yn fwy hygyrch yn canolbwyntio adnoddau'r cynllun ar y materion amgylcheddol mwyaf critigol. Fodd bynnag, bydd angen osgoi'r risg y gallai newidiadau mewn un rhan o'r fferm yn negyddu'r manteision sydd wedi'u contractio ar gyfer rhywle arall. Er enghraifft, dylai paratoi cynllun rheoli adnoddau barhau i fod yn rhagofyniad cyn buddsoddi mewn storfa slyri fwy. Dylid defnyddio cod ymarfer sylfaenol, sy'n gymwys i holl gynlluniau Glastir, i atal difrod i unrhyw nodweddion amgylcheddol sydd ddim wedi'u gwarchod gan gyfranogiad yn y Glastir Uwch.

1.2. Cyflwyno cynllun sengl ar gyfer tir comin yn ogystal â chyflwyno mwy o hyblygrwydd wrth drafod dwyseddau stocio.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi'r cynnig yma'n gryf.

Bydd cynllun sengl ar gyfer tir comin yn lleihau costau gweinyddol i'r holl bartion drwy ddileu'r angen i roi cysyniadau AoDdGA ar wahân ar gyfer dwy elfen y cynllun. Dim ond un drafodaeth ynglŷn â lefelau stocio fydd ei hangen a bydd yn haws datblygu contractau Glastir sydd wedi'u canolbwyntio'n fanylach ar amgylchiadau ac amcanion penodol pob comin.

Bydd angen cynnwys perchennog y comin yn aelodaeth y Gymdeithas Bori yn y rhan fwyaf o achosion i sicrhau y gellir rhoi prosiectau gwaith cyfalaf ar gael dan y Glastir Uwch.

C2: Ydych chi'n cytuno â chynigion Llywodraeth Cymru i wella ymgysylltiad â rheolwyr tir dan y CDG nesaf?

2.1. Cyflwyno hwyluswyr i weithio ag ymgeiswyr potensial Glastir

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi'r cynnig yma'n gryf. Dylai buddsoddiad mewn rheoli tir neu seilwaith fod wedi'i danategu gan ymrwymiad paralel ar ran yr ymgeiswyr i wella'u sgiliau a'u gwybodaeth.

Mae gwell dealltwriaeth o nodau Glastir a'i wahanol ofynion yn hanfodol. Rydyn ni'n croesawu'r defnydd arfaethedig o hwyluswyr gan ei fod yn ddull sydd wedi'i brofi ac yn ddull effeithiol.³ Mae ymgysylltu rheolwyr tir yn gynnar yn debygol o gynyddu'r nifer sy'n derbyn Glastir ac o wella ansawdd canlyniadau'r cynllun.

Dylai'r rheiny sy'n dal contractau Glastir allu hyrwyddo manteision y cynllun a helpu i egluro unrhyw gamsyniadau ymysg y gymuned wledig. Gall cyfranogwyr presennol y cynllun gynorthwyo darpar ymgeiswyr a chynghori dalwyr contractau newydd. Ynghyd â digwyddiadau hyfforddi ar-fferm, byddai'n werth ystyried system ffurfiol o fentora, yn debyg i'r un a ddefnyddir yn y Cynllun YESS (Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid).

Dylai'r system arfaethedig o drosglwyddo gwybodaeth greu gwell gwerthfawrogiad o'r hyn sydd ei angen i gyflenwi arferion rheoli tir mwy cynaliadwy. Bydd mwy o ymgysylltu'n seiliedig ar enghreifftiau ymarferol yn helpu i wneud y Dull Ecosystem yn fwy ystyrlon i reolwyr tir.

Mae rhai busnesau fferm yn dal i ystyried bod cyngor amgylcheddol yn amherthnasol. Bydd eraill yn ystyried cyngor felly'n ffordd o sefydlu arferion busnes arloesol a phroffidiol⁴. Gall hwyluswyr helpu ffermwyr i wneud y cysylltiad rhwng gwell cystadleurwydd a gwell cyflawniad o wasanaethau ecosystem. Mae pecynnau cyngor effeithiol sy'n cwmpasu ystod o sectorau amaethyddol eisoes yn bod^{5,6}. Dylai Cynllun Datblygu Gwledig Cymru

³ *Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesedd sy'n ymwneud â Chynllun Datblygu Gwledig Cymru a'r Bartneriaeth Arloesedd Ewropeaidd 2014-20. Wynne-Jones, Arsyllfa Wledig Cymru. Hydref 2013.*

⁴ *Exploring the Concept of Sustainable Intensification. Report for the UK Land Use Policy Group by ADAS and Les Firbank Ecosystems. January 2013.*

⁵ *Environmental Cost Benefits Datasheets for Farming Connect. Report to Countryside Council for Wales and Welsh Government by Cumulus Consultants and FWAG Cymru.*

newydd ddefnyddio'r mathau hyn o ddulliau i annog ymyriadau sy'n gwneud dulliau 'ennill-ennill' yn ariannol bosibl.

Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru, mewn egwyddor, yn barod i gyfrannu i'r broses o drosglwyddo gwybodaeth drwy ddarparu gwasanaeth cynghori sy'n seiliedig ar swyddog dalgylch i ddelio ag elfennau creu coedwig a choetir Glastir. Byddai angen i wasanaeth felly fod yn rhan o bartneriaeth ehangach sy'n cynnwys staff Glastir Llywodraeth Cymru, Cyrff Anllywodraethol a'r sector breifat. Dim ond os byddai costau llawn gwasanaeth newydd fel hyn yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru (gan ddefnyddio darpariaethau'r trosglwyddiad gwybodaeth, erthyglau cyngor a chydweithrediad o fewn Rheoliad Datblygu Gwledig newydd y Gymuned Ewropeaidd), y bydden ni'n gwneud hyn. Bydd angen trafodaeth bellach i egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau.

2.2. Adolygiadau rheolaidd o Strategaeth Gyfathrebu Strategol Glastir

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi'r dull hwn, ond mae'n credu y dylai dewisiadau gwahanol i sianelau digidol ddal i fod ar gael i'r rheiny sydd eu hangen (gweler isod).

2.3. Cyflwyno system ar-lein fel yr unig ffordd i gyrchu Glastir

Er y manteision niferus sy'n codi o system ymgeisio ar-lein, mae Cyfoeth Naturiol Cymru ag amheuan ynglŷn â gwneud hyn yn unig ffordd i gael cyrchiad i Lastir. Gallai gwasanaeth gwael presennol band eang gwledig gyfyngu ar lawer o ymgeiswyr. Fe allai rhai fod angen gwella eu systemau presennol, ac fe allai eraill fod â phryderon ynglŷn â gwneud cais drwy drydydd parti. Fe allai'r ffactorau hyn i gyd gyfuno i leihau'r diddordeb cychwynnol yn y cynllun a hynny yn ei dro'n lleihau'r cyfleoedd i daclo'r problemau amgylcheddol mwyaf enbyd drwy'r Glastir Uwch.

Dull gwahanol fyddai gwella apêl ceisiadau ar-lein, wrth ddargadw systemau sy'n seiliedig ar bapur i'r rheiny sy'n dal i fod eu hangen. Mae'n bosib y bydd Llywodraeth Cymru'n dymuno cynnal Asesiad o Effaith Cydraddoldeb a darparu cyrchiad i hyfforddiant a mentora ar y ffordd i ddefnyddio systemau ar-lein drwy rannau eraill o'r CDG.

2.4. Ariannu swyddogion datblygu i hwyluso ceisiadau cydweithredol a darparu taliadau uwch i gydnabod manteision adeiladu cynhwysedd

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu'r cynnig i annog mwy o weithio cydweithredol. Mae hyn yn adeiladu ar brofiad blaenorol a gafwyd o gynllun Tir Comin Glastir. Dylid clustnodi adnoddau digonol ar gyfer hyn o fewn cyllideb Cymorth Technegol y CDG a/neu fesurau newydd y CDG sy'n ymwneud â Chyfalaf Dynol a Chymdeithasol. Yn ogystal, mae'n bwysig fod grwpiau newydd yn cael eu darparu â chymorth ac amser digonol i ddatblygu cyn gwneud unrhyw geisiadau ariannu⁷.

⁶ *Integrated Advice Pilot Project. Defra funded project FF0204.*

⁷ *Identification of Delivery Mechanisms for Welsh Top-Tier Agri-Environment Schemes (2006). Mills, J., Gibbon, D., Dwyer, J. Short, C., and Ingram, J.*

Gall cynlluniau cydweithredol ddarparu manteision graddfa tirwedd sylweddol drwy hyrwyddo camau “cydgysylltiedig” o fewn dalgylchoedd afonydd a rhwydweithiau cynefin presennol. Gellid datblygu rhwydweithiau cynefin newydd er mwyn cyfrannu i addasiad a lliniariad y newid yn yr hinsawdd; rheoli'r risg o lifogydd; ansawdd dŵr gwell; cyfleoedd hamdden newydd ac agwedd fwy strategol tuag at wella'r dirwedd. Byddai'n synhwyrol ceisio integreiddio Glastir mewn dulliau gweithredu eraill ar raddfa tirwedd fel gwaith yr Ymddiriedolaeth Natur ar “Dirweddau Byw”, prosiect “Futurescapes” yr RSPB a gwaith grwpiau ecosystem Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn diffinio meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu yng Nghymru.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cymeradwyo defnyddio'r dull gweithredu cydweithredol i hyrwyddo cyflenwi mesurau targedol ar gyfer rheoli dŵr a gwasgaru llygredd, adeiladu cydnherthedd ecosystem a lleihau'r risg o lifogydd i gymunedau i lawr yr afon. Byddem yn croesawu ymglymiad pellach yn natblygiad unrhyw raglenni a phrosiectau felly.

Dylai'r cynnydd arfaethedig yng nghyfradd taliadau ar gyfer y cyfarwydddebau hynny yr ymgwymerwyd â nhw'n rhan o ddull cydweithredol, helpu i wella cyfraddau cyfranogiad. Bydd darparu cydnabyddiaeth ddiriaethol o'r costau trafod uwch sy'n gysylltiedig â'r math yma o weithgaredd yn cyfleu neges bositif o fwriadau Llywodraeth Cymru.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu'r cynnig i roi mwy o bwyslais ar yr angen am Gynllun Rheoli Coedwig i danatgu darpariaeth cefnogaeth gyhoeddus dan y cynllun rheoli coetir. Dylai lefel y manylion sy'n ofynnol fod yn gymesur â maint ac arwyddocâd pob coetir.

C3: Ydych chi'n cytuno â chynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithrediad y Cynllun Glastir Sylfaenol yn y dyfodol dan y cynllun nesaf?

3.1. Cadw'r Lefel Sylfaenol yn agored, ond datblygu dull gweithredu mwy detholus.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi cadw'r Lefel Sylfaenol (yn amodol ar addasiadau) yn y tymor byr, ond mae'n ffafrio dull gweithredu canolbwyntiedig tuag at y rhan yma o'r Glastir wedyn. O ystyried targedau Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer dŵr, bioamrywiaeth a newid yn yr hinsawdd, teimlwn fod angen i'r Glastir Sylfaenol wella ar y lefel o ganlyniadau amgylcheddol a ddarparwyd. Ar yr un pryd mae yna fanteision i ofalu fod y cynllun yn dal i fod ar gael yn eang.

Mae'n ofynnol mewn sawl cynllun sicrwydd fferm i ffermwyr fod â rhyw fath o gontract amaeth-amgylchedd a bydd cadw'r lefel Sylfaenol yn helpu â hyn. Dywedir yn aml fod lefel sylfaenol yn darparu dull gweithredu gam wrth gam i'r rheiny sy'n ansicr ynglŷn â chyfranogi yn y cynllun. Byddai mwy o dystiolaeth ynglŷn â maint proses o'r math yma'n gynorthwyol.

Cred Cyfoeth Naturiol Cymru y gallai Glastir Sylfaenol gyflenwi gwelliant mewn canlyniadau drwy ofalu mai dim ond yr opsiynau sy'n fwyaf amgylcheddol fanteisiol sy'n cael eu derbyn mewn lleoliadau penodedig (mecanwaith "dewis cyfeiriedig). Ar y llaw arall, gellid cysylltu'r nifer sy'n derbyn rhai o'r opsiynau llai ymdrechgar â'r rheiny sy'n darparu manteision amgylcheddol sy'n fwy sylweddol (y dull "dewislen).

Mae'r penderfyniad i ddileu adolygiad mwy sylfaenol o'r Glastir Sylfaenol yn cynrychioli ymateb pragmatig i'r angen i ganolbwyntio ar gyflwyno system newydd o Daliadau Uniongyrchol y Polisi Amaethyddol Cyffredin yn seiliedig ar ardal. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau fod cynllun presennol y Glastir yn cynnal momentwm.

3.2. Gofalu fod opsiynau cynnal poblogaidd yn darparu mwy o fanteision amgylcheddol.

Teimla Cyfoeth Naturiol Cymru fod angen dull fesul achos. Byddem yn croesawu trafodaethau pellach â Llywodraeth Cymru ar hyn.

Gall rhai opsiynau cynnal (fel y rheiny sy'n gymwys i weirgloddiau) fod yn rhan bwysig o "gynnig cymysg" drwy sicrhau bod yr opsiynau mwy heriol yn ymddangos yn fwy dymunol i gyfranogwyr. Mae opsiynau felly'n sicrhau hefyd fod ffermwyr yn cael eu talu am reoli cynefinoedd o ansawdd sy'n bod yn barod ac am ddiogelu carbon pridd. Er y cyfeirir at hyn weithiau fel 'pwysau marw' mewn termau economaidd, dylid ystyried taliadau o'r fath yn fwy priodol fel taliad am wasanaethau ecosystem (gan mai anaml y bydd rheolaeth felly'n cael ei gwobrwyo gan y farchnad). Er enghraifft, os bydd presenoldeb opsiwn pori mewn bwn sero'n atal dwysâd porfa led-naturiol, a lleihad mewn gwasanaethau ecosystem o ganlyniad (yn enwedig lle gallai camau felly fod yn ymateb rhesymol i amgylchiadau'r farchnad) yna gellir dal i briodoli'r budd hwn i'r cynllun.

Mewn cyferbyniad, dylid cyfyngu ar ddefnyddio opsiynau 15B a 15D (glaswelltir mewn bwn isel) i osgoi difrod i laswelltir lled-naturiol, gwlyptiroedd cyfagos a dyfrffosydd presennol. Mae'n bosib iawn y gallai'r cyfraddau cyfredol uchaf o gynhwysiad gwrtaith a ganiateir (hyd at 50kg/ha o nitrogen anorganig y flwyddyn ar bob porfa barhaol) olygu cymell difrod amgylcheddol.

Ynglŷn â'r uchod, mae ymchwil presennol wedi dangos y gall cymwysiaidau nitrogen o 25 kg/ha y flwyddyn (wedi'u rhoi fel gwrtaith anorganig) achosi difrod sylweddol i fflora glaswelltir sy'n gyfoethog o rywogaethau⁸. Mae targedau Llywodraeth Cymru sydd wedi'u bwriadu i atal colli cynefinoedd glaswelltir blaenoriaeth y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, yn debygol o gael eu cyfaddawdu o ddefnyddio opsiynau 15B & 15D pe baen nhw'n parhau i gael eu defnyddio ar laswelltir lled-naturiol. Mae'n ymddangos fod y lefel uchaf presennol o nitrogen a ganiateir (100kg/ha y flwyddyn) yn uwch na'r cyfraddau cymhwyso presennol ar laswelltir sydd wedi'i wella ac sy'n cael ei

⁸ Smith, R.S. (1993). *Effects of fertiliser on plant species, composition and conservation interest of UK grassland.*

reoli'n llai dwys yng Nghymru⁹; a hynny'n bwrw amheuaeth ar y graddau y mae'r opsiynau hyn yn newid ymddygiad ffermwyr ac yn darparu manteision amgylcheddol ystyrllon. Mewn rhai amgylchiadau, gallai cymhwysiad gwrtaith anorganig fod yn groes i ofynion Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Tir heb ei Drin).

Bydd adfer bioamrywiaeth glaswelltir lled-naturiol yn anodd ac yn gostus unwaith y byddan nhw wedi'u difrodi. Rydyn ni felly'n cymeradwyo mai dim ond ar laswelltir sydd wedi'i wella'n amaethyddol y dylid caniatáu Opsiynau 15B a 15D. Mae'r rhain yn dal i gyfrif am fwy na 90% o'r glaswelltir iseldir yng Nghymru.

Dylid ailasesu hefyd amryw o amodau eraill y Lefel Sylfaenol. Er enghraifft, nid oes gan yr opsiwn gweirgloddiau (22 a 124) unrhyw gyfradd uchaf ar gyfer cymhwyso tail, er bod y lefelau maetholion priodol yn allweddol i gynnal bioamrywiaeth.

3.3. Dileu'r opsiynau hynny lle cafwyd galw cyfyngedig

Byddai'n well gan Gyfoeth Naturiol Cymru weld rhai o'r opsiynau sy'n cael eu defnyddio'n llai aml yn cael eu cadw pan fydd yna botensial ar gyfer lles amgylcheddol sylweddol. Mae enghreifftiau'n cynnwys yr amodau i greu ymylon o wndwn âr, ymylon o borfa arw a thalarau o yd heb ei gynaeafu: gall pob un o'r rhain fod o fudd i chwyn âr prin ac adar tir fferm. Er y gallai'r Dechnoleg Gwybodaeth greiddiol fod yn ddud i'w datblygu, mae'n ymddangos y bydd dileu'r opsiynau hyn yn annhebygol o ddarparu arbedion arwyddocaol. Efallai fod Glastir Sylfaenol yn ymddangos yn symlach i ymgeiswyr, ond cyflwyniadol fydd y manteision i raddau helaeth. Gallai'r nifer sy'n derbyn rhai o'r opsiynau llai poblogaidd/mwy dyrus gynyddu unwaith y mae hwyluswyr wedi'u cyflwyno a/neu unwaith y daw'r cynllun Lefel Sylfaenol yn fwy detholus.

Byddai'n werth ystyried hefyd, yn rhan o'r adolygiad, a oes angen unrhyw opsiynau rheoli newydd. Yn achos mawndiroedd, canlyniad diffyg categori rheoli addas yw cymhwysiad amodau rheoli anaddas ar rai safleoedd.

3.4. Cynyddu apêl Pecynnau Rhanbarthol drwy leihau gofynion cymhwyso; adolygu'r opsiynau o fewn pob grŵp a dyfarnu 15% yn fwy o bwyntiau ar bob un o'r opsiynau cymhwyso.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi'r dull a awgrymwyd.

Byddai croeso i unrhyw welliant yn nerbyniad yr opsiynau Lefel Sylfaenol hynny sydd wedi'u siwtio'n well i ardaloedd penodol. Dylai'r ystod lawn o amcanion Llywodraeth Cymru ynglŷn â bioamrywiaeth, ansawdd dŵr, rheoli dŵr, lliniaru ac addasu'r newid yn yr hinsawdd gael eu hadlewyrchu yn y ffordd y mae pecynnau Rhanbarthol yn cael eu llunio yn y dyfodol.

Mae derbyniadau'r pecynnau rhanbarthol wedi bod yn wael oherwydd cyfuniad o gyflwyniad gwael, cymhlethdod a chymhellion annigonol. Byddai

dull gweithredu'r broses ymgeisio ar-lein yn helpu i wella cyflwyniad y Pecynnau Rhanbarthol, ond gellid gwneud gwelliannau hefyd i'r system bapur gyfredol.

Fe fyddai yna lai o angen pecynnau rhanbarthol pe bai'r cynllun Lefel Sylfaenol yn cael ei addasu i sicrhau fod pob contract yn darparu mwy o les amgylcheddol e.e. mae pecynnau rhanbarthol yn cynrychioli ateb tymor byr nes daw'r cynllun Lefel Sylfaenol yn fwy detholus.

Byddem yn croesawu'r cyfle i gynorthwyo Llywodraeth Cymru i ail-ddylunio'r Pecynnau Rhanbarthol presennol.

3.5. Cadw'r system ad-dalu £34 yr ha / 34 o bwyntiau.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi'r cynnig hwn yn fras, yn amodol ar adolygu rheolaidd.

Mae cadw'r gyfradd dalu bresennol yn ymateb pragmatig i sicrhau argaeledd Lefel Sylfaenol ar draws gyfran sylweddol o Gymru. Fodd bynnag, gallai nifer o'r cynigion cynharach yn y ddogfen ymgynghori olygu cynllun Glastir Sylfaenol sy'n fwy dyrys. Fe allai hyn fod yn atyniadol dim ond â chyfradd taliad uwch, a gallai cyflwyno hynny gael effaith ganlyniadol o ran yr angen i gynnal cymelliadau digonol o fewn Glastir Uwch.

Mae gorsymiau gros wedi cynyddu ers 2010, ond mae'r Adolygiad Glastir blaenorol a'r ymarferiadau Cyfrif Diwedd Blwyddyn wedi ei gwneud yn haws i ffermwyr ddod i mewn i'r cynllun. Derbyniwyd llawer o geisiadau yn ystod ffenestr 2013, ond mae rhai ffermiwyd wedi penderfynu wedyn i beidio ag arwyddo contract. Dylid adolygu'r rhesymau am hyn i gadarnhau nad yw cyfraddau talu cyfredol yn ffactor arwyddocaol.

3.6. Datblygu mecanwaith blaenoriaethu i ddewis cyfranogwyr Glastir Sylfaenol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi'r dull arfaethedig.

Bydd blaenoriaethu'r ceisiadau lefel Sylfaenol yn helpu i atal y rhan yma o'r cynllun rhag dominyddu'r gyllideb gan sicrhau y gellir canolbwyntio adnoddau ar gamau sy'n fwy targedol sy'n uniongyrchol berthnasol i'r Dull Ecosystem.

Byddem yn croesawu'r cyfle i weithio â Llywodraeth Cymru ar y mecanwaith blaenoriaethu arfaethedig. Gellid seilio hwn ar ddewis y ceisiadau hynny â'r mwyaf o fanteision amgylcheddol, neu gallai gynnwys ffocws daearyddol. Er enghraifft, gellid defnyddio'r system newydd i gynyddu'r derbyniadau o fewn dalgylchoedd penodol. Neu, gallai Llywodraeth Cymru gadw cynllun sy'n cael ei arwain gan alw, wrth esbonio ei bod yn blaenoriaethu cynigion i ymgymryd â'r opsiynau hynny a oedd yn fwyaf addas i ddarparu'r lles amgylcheddol mwyaf mewn lleoliadau penodol (y mecanwaith "dewis cyfeiriedig").

Byddai targedu'n gwella manteision hyd yr eithaf ar raddfa tirwedd gyda gwerth ychwanegol ar gyfer cysyllted ecolegol, ansawdd dŵr a gostyngiadau

yn y risg o lifogydd. Byddai dull felly'n gwella cydnerthedd y dirwedd sy'n cael ei ffermio, yn amaethyddol ac yn amgylcheddol.

C4: Beth yw eich barn ar gynigion Llywodraeth Cymru i gefnogi buddsoddiadau cyfalaf dan y cynllun nesaf?

4.1. Cynnig cynllun cymorth gyda chyfraddau ariannu uwch ar gyfer ffermwyr ifanc a newydd-ddyfodiaid.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi'r dull a awgrymwyd.

Roedd ein hymateb i ymgynghoriad blaenorol y CDG yn croesawu defnyddio benthyciadau ac offerynnau ariannol ochr yn ochr â grantiau. Dylid cysylltu cefnogaeth ag ymrwymiad i baratoi a gweithredu'r cynlluniau rheoli perthnasol yn ogystal â chyfranogi mewn hyfforddiant a datblygu parhaus. Mae dull felly'n arbennig o berthnasol i ffermwyr ifanc a newydd-ddyfodiaid gan y bydd gweithgaredd sy'n amgylcheddol niweidiol yn digwydd yn aml yn dilyn trosglwyddo rheolaeth.

Mae'r cyfeiriad at "Gynhyrchu Cynaliadwy" yn hytrach na "Dwysáu Cynaliadwy" i'w groesawu'n arbennig. Mae hyn yn arwyddo dull gweithredu mwy cytbwys; yn ystyried gwerth cynhyrchion rheoli tir yn ogystal â meintiau cynhyrchu.

Dylai cyfuno'r Cynllun cyfredol o Gymorth i Newydd-ddyfodiaid â Grantiau Effeithlonrwydd Glastir (GEG) leihau gorbenion gweinyddol i ffermwyr ifanc a newydd-ddyfodiaid. Mae'r nifer sy'n derbyn GEG (sy'n rhoi cymorth sylweddol ar gyfer gwell rheolaeth o systemau slyri) wedi bod yn is na'r disgwyl a gallai benthyciadau helpu i gynyddu'r cyfraddau cyfranogi.

Gellir gwella gwrthsafiad digwyddiadau tywydd eithafol drwy uwchraddio seilwaith iard y fferm. Mae cyngor a chymorth ariannol yn gydradd bwysig. Bydd cymorth ar gyfer storio slyri'n well a gwahaniad dŵr budr a dŵr glân yn helpu i leihau'r risg o darddle pwynt a llygredd gwasgaredig. Dylid annog creu gwlyptiroedd fferm hefyd (gan ddefnyddio systemau naturiol i lanhau peth o'r dŵr ffo llai llygredig o fuarthau).

Dylai'r mesurau buddsoddi newydd ddelio hefyd ag effaith dyddodiad nitrogen atmosfferig. Mae hyn wedi effeithio'n ddifrifol ar fioamrywiaeth ddaearol gan leihau nifer y rhywogaethau planhigion o fewn cynefinoedd a ddiogelir ledled y Deyrnas Unedig¹⁰. Mae amaethyddiaeth yn cyfri am 90% o allyriadau amonia yn Ewrop a'r Deyrnas Unedig¹¹. Mae ffeithiau ar gynefinoedd sy'n agos at unedau dwys moch, dofednod a biff wedi arwain at gasgliad gan Defra fod "lleihau allyriadau amonia o amaethyddiaeth yn flaenoriaeth"¹².

¹⁰ Collation of evidence of nitrogen impacts on vegetation in relation to biodiversity objectives. (2011) Stevens et al., JNCC Report 447.

¹¹ Ammonia and Nature Conservation Factsheet (2011). Environment Agency.

¹² Review of Transboundary Air Pollution: Acidification, Eutrophication, Ground Level Ozone and Heavy metals in the UK (RoTAP 2012). Contract report to the Department for Environment, Food and Rural Affairs. Centre for Ecology and Hydrology.

4.2. Cyflwyno Cynllun Grant Bach newydd

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi'r cynnig yma a byddai'n croesawu cyfle i weithio â Llywodraeth Cymru ar ddyluniad unrhyw gynllun newydd.

Gall grantiau bach o risg bychan weithio fel cymhelliad gan annog rheolwyr tir i ddarparu mwy o fanteision o ran rheoli adnoddau naturiol. Fe allan nhw hefyd helpu'r rheiny sy'n anghymwys i ymrwmo â Glastir a/neu ddarparu cyflwyniad i fesurau eraill y CDG. Deallwn fod Llywodraeth Cymru'n disgwyl i bob ymgeisydd am y cynllun grantiau bach gael Cyfeirnod Cwsmer. Mae profiad o gynlluniau coetiroedd Glastir cyfredol yn dangos y gall y broses o gael Cyfeirnod Cwsmer rwystro ymgeiswyr. Bydd yn bwysig osgoi profiadau tebyg wrth ddatblygu'r cynllun newydd.

Tra bydd cyllid yn gyfyngedig, gall grantiau bach gyfrannu i ystod eang o amcanion Llywodraeth Cymru fel rheoli rhywogaethau goresgynnol ac anifeiliaid ysglyfaethus; plannu coed ar raddfa fechan; dulliau o groesi afonydd i dda byw; amaeth-goedwigaeth; bioamrywiaeth, cynnal a gwella tirwedd. Gellid defnyddio grantiau bach hefyd i dalu costau'r arolygon rhywogaethau arbenigol sydd eu hangen i hysbysu prosiectau Glastir eraill.

Dylid gosod cyfyngiad ar uchafswm y grant ar gyfer pob daliad unigol er mwyn rheoli'r galw. Byddem yn awgrymu hefyd gyfyngu ar y swm y gellir ei wario ar weithgareddau penodol felly'n lleihau'r risg y bydd y galw am fathau arbennig o brosiectau'n disbyddu cyllideb y grantiau bach. Dylai'r mathau hyn o reolaethau ariannol adlewyrchu blaenoriaethau a thargedau cyffredinol Llywodraeth Cymru.

Dylai'r cynllun newydd fod yn hygyrch ar lefel gymunedol i'w ddefnyddio gan Grwpiau Gweithredu Lleol. Byddai hyn yn drychweddu'r dull gweithredu yn yr ymgynghoriad CDG cyfredol ynglŷn â'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n flaenrol wedi awgrymu y gellid cyflenwi rhai elfennau o'r Glastir ar lefel leol. Gallai hynny helpu i ddatblygu atebion sy'n wirioneddol "seiliedig ar leoedd" a hynny'n creu gwell derbyniad gan reolwyr tir unigol.¹³

Gallai Grwpiau Gweithredu Lleol ddarparu ffordd gost-effeithiol o sicrhau fod prosiectau a gynhelir dan y cynllun grantiau bach wedi eu dylunio'n dda. Er enghraifft, mae angen lleoli pyllau newydd a phlannu coed ar raddfa fechan yn ofalus er mwyn osgoi difrod i gynefinoedd presennol.

Gallai grantiau bach helpu i ddelio ag ystod o broblemau sydd wedi bod yn anodd dan y cynllun Glastir presennol. Er enghraifft:

- Cymeradwyodd Ymchwiliad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Rywogaethau Estron Goresgynnol fabwysiad dull gweithredu dalgylch

¹³ NRW evidence to NAW Sustainable Land Management Inquiry. January 29th, 2013.

afon ar gyfer rheolaeth¹⁴. Fe allai'r Cynllun Grantiau Bach fod yn fwy effeithiol na Glastir Uwch, yn enwedig wrth geisio delio â lleiniau bychan o heigiad neu ardaloedd sydd ddim ar ffermydd.

- Fe waharddwyd trwsio waliau cerrig sychion o'r Glastir Sylfaenol am resymau cyllidol, ond gallai grantiau bach fod yn fwy cost-effeithiol, yn enwedig os byddan nhw'n gyfyngedig i dirweddau lle mae waliau cerrig sychion yn arwedd nodweddiadol ac yn hygyrch i olwg y cyhoedd.
- Mae perllannau traddodiadol yn gynefin adran 42¹⁵ ac yn bwysig am resymau tirwedd. Fe allan nhw hefyd ddarparu ffocws cymunedol pwysig. Mae llawer o berllannau traddodiadol yn anghymwys ar hyn o bryd ar gyfer Glastir gan eu bod ar fân-ddaliadau neu ar dir nad yw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth. Fe allai'r newidiadau arfaethedig ynglŷn â chymhwysedd ar gyfer Glastir Uwch ei gwneud yn haws i berllannau traddodiadol ar ddaliadau fferm mwy, ddod i mewn i'r cynllun ond bydd llawer o berllannau traddodiadol yn dal yn rhyw fach i gymhwyso. Dylai gwaith dan y cynllun grantiau bach bwysleisio adferiad perllannau sy'n bod yn barod yn hytrach na chreu rhai newydd.
- Mae glaswelltir iseldir sydd heb ei wella'n gynefin adran 42 sy'n gynyddol dameidiog a than fygythiad. Mae diffyg rheoli a gwella amaethyddol yn cyfrannu tuag at y broses o ddirywiad. Er bod Glastir Uwch yn rhoi cymorth i gynnal cynefinoedd o fewn daliadau amaethyddol, mae cyfran arwyddocaol o'r adnodd sydd ar ôl ar ddaliadau bach sydd ddim yn gymwys ar gyfer y cynllun. Gall gweirgloddiau a phorfeydd bychan, i'w cael yn aml gwmpas cyrion aneddiadau, ddarparu adnodd amwynder gwerthfawr, ochr yn ochr â pheillwyr cynhaliol a Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop fel y glöyn byw brith y gors. Gallai grantiau bach fod yn ffordd effeithiol iawn o gynnal y rheolaeth barhaus sy'n ofynnol.
- Fe nododd Adolygiad Pitt¹⁶ dri math o fesurau Rheoli Llifogydd yn Naturiol:

- (i). Dargadwedd dŵr drwy reoli ymdreiddiad, drwy ddiogelu neu wella cyflwr pridd yn benodol;
- (ii). Darparu storfa llif fel cronfeydd ar-fferm neu wlyptiroedd a golchdiroedd gwell;

¹⁴ *Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Amgylchedd a Chynnaladwyedd: Ymchwiliad i Rywogaethau Goresgynnol Estron. Ionawry 2014*

¹⁵ *Adran 42, Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006: Rhestr o gynefinoedd a rhywogaethau pwysig iawn yng Nghymru.*

¹⁶ *The Pitt Review: Lessons learnt from the 2007 Floods (Cabinet Office, 2008)*

(iii). Arafu llif dŵr wella rheolaeth afonydd a thir cyfagos, yn cynnwys plannu cnydau gorchudd ac adfer dyfrffosydd llai i aliniad mwy naturiol.

Mae technegau fel hyn yn helpu i ddiogelu, i efelychu, neu adfer y prosesau naturiol sy'n rheoleiddio llifogydd ac erydiad. Maen nhw hefyd yn creu buddiannau o ran bioamrywiaeth, lleihad mewn allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr ac ansawdd dŵr. Gellid defnyddio grantiau ar gyfer coetiroedd bychan, ffensio parthau torlannol a phlannu gwrychoedd i gyd mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo ymdreiddiad dŵr, lleihau cyflymder dŵr ffo a gwella ansawdd dŵr¹⁷

C5: Beth yw eich barn ar gynigion Llywodraeth Cymru i gefnogi cynladwyedd yr ucheldir drwy fesurau amaeth-amgylchedd?

Mae rheoli'r ucheldir yn gynaliadwy â manteision lluosog. Ochr yn ochr â'r lles economaidd a chymdeithasol sy'n codi o amaethyddiaeth a choedwigaeth, mae'r manteision hyn yn cynnwys storio carbon a dŵr; ansawdd dŵr; bioamrywiaeth; tirwedd a hamdden. Yn benodol, mae'r cysylltiadau rhwng uchafu'r manteision i adnoddau naturiol a dwysedd, amseriad a lefel pori da byw yn aml yn gritigol.

5.1. Cyflwyno cyfraddau stocio sylfaenol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi'r dull a awgrymwyd a fydd yn ategu'r defnydd presennol o gyfraddau stocio uchaf.

Rydyn ni'n flaenorol wedi hyrwyddo defnyddio cyfraddau stocio sylfaenol mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd er mwyn delio â'r problemau tanbori sy'n awr yn amlwg mewn sawl rhan o Gymru, fel Cwm Elan, y Berwyn a'r Mynydd Du.

5.2. Cyflwyno addasiadau tymhorol mewn patrymau pori.

Rydyn ni'n cefnogi mabwysiad dull mwy hyblyg. Dylai hyn elwa'r ffermwyr a'r amgylchedd, er y bydd yn bwysig gofalu fod pob parti â digon o amser i drafod y drefn stocio fwyaf priodol. Mae timau gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes yn darparu cymorth ar safleoedd statudol ac mae Rheolwyr Contract yn gallu gwneud yr un fath â'r Glastir Uwch. Fodd bynnag, bydd angen dull newydd er mwyn delio â'r ceisiadau Lefel Sylfaenol hynny sy'n cynnwys safleoedd anstatudol. Mae'r safleoedd hyn yn cynnwys adnodd bioamrywiaeth arwyddocaol yn eu cyfanswm.

Roedd amodau Lefel Sylfaenol presennol yr ucheldir wedi eu cynllunio o bersbectif cenedlaethol ac maen nhw'n gymwys i amrywiaeth o gynefinoedd. O ganlyniad, maen nhw'n aml yn amhriodol ar lefel leol. Yn benodol, mae amodau safonol sy'n ymwneud â chyfraddau stocio cymharol isel yn arbennig o anaddas i'r safleoedd eang hynny sy'n gofyn am lefelau pori cymharol uchel (yn aml oherwydd presenoldeb rhywogaethau fel y cwtiad aur).

Mae'r rhan fwyaf o gynefinoedd ucheldir â chymeriad lled-naturiol ac mae eu goroesiad parhaus yn gofyn am ryw fath ar reolaeth amaethyddol gyfredol. Darparwyd hynny'n draddodiadol drwy bori cymysg â defaid, gwartheg a/neu ferlod, ond yn ddiweddarach mae'r pwyslais wedi symud i ddefaid.

Gall amodau rheoli ucheldir presennol Glastir (yn enwedig y rheiny a ddefnyddir ar rostir) fod yn anodd eu cysoni ag arferion ffermio modern. Yn benodol, mae'r rhan fwyaf o systemau defaid yn awr yn seiliedig ar ddirywiad rheolaidd yn ansawdd maethol y borfa sydd ar ôl cyn rhoi'r mamogiaid i'r hwrdd. Mae hyn yn lleihau'r cyfleoedd i'r mamogiaid gynhyrchu ŵyn lluosog (sy'n annhebygol o gael eu dychwelyd i borfeydd garw lled-naturiol yn ystod yr haf canlynol). Fe gyflawnir y gostyngiad gofynnol yng nghymeriant maethol y mamogiaid drwy un ai bori llystyfiant lled-naturiol yn ystod yr hydref neu drwy gynnal cyfraddau stocio uchel ar dir caeedig. Mae'r cyntaf yn mynd yn groes i amodau presennol Glastir (sydd wedi'u llunio i ddiogelu llystyfiant rhostir rhag gorburi ym mis Medi) tra gall yr olaf fod ag oblygiadau croes i ansawdd pridd a dŵr yn ogystal â'r risg o orlif.

Mae'r dulliau cyfredol a ddefnyddir i osod patrymau pori ar sail dymhorol o fewn Glastir Sylfaenol a Thir Comin weithiau'n methu â bodloni amcanion amgylcheddol, ac nid ydyn nhw chwaith wedi eu siwtio i arferion ffermio presennol. Fodd bynnag, efallai y bydd yn bosib delio â'r ddau nod yma drwy ddefnyddio cyfuniad o gyfraddau stocio cyfartalog blynyddol a dull mwy hyblyg tuag at gyfraddau stocio uchaf a gymhwysir yn ystod unrhyw un tymor.

Dylid sefydlu cyfraddau stocio cyfartalog blynyddol ar gyfer pob parcel o dir yn unol â'r gymysgedd o fathau o llystyfiant sy'n bresennol. Yna dylid gosod y cyfraddau uchaf mwy hyblyg a awgrymir ar gyfer pob tymor yn ôl yr amcan amgylcheddol a ddymunir. Fe all hyn fod yn gysylltiedig ag adar sy'n nythu ar y ddaear fel y gylfinir neu'r cwtiad aur neu â'r prif fath o llystyfiant.

Mae'r dull a awgrymwn ni'n seiliedig ar y gydnabyddiaeth fod angen lefel priodol o bori cynefinoedd ucheldir i gynnal y cydbwysedd priodol rhwng gweiriau a rhywogaethau rhostir. Bydd sefydlu lefel pori sylfaenol yn gynnar yn y tymor tyfu'n helpu i arafu aeddfediad gwair, gan sicrhau ei fod yn aros yn flasus hyd yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Yna gellid cynyddu niferoedd y defaid yn gynnar yn yr hydref heb effeithio'n niweidiol ar blanhigion fel grug. Byddai hwn fel arall yn cael ei ffafrio i'w bori gyn gynted ag y bydd y gwair yn dod yn llai blasus.

Rydym yn cydnabod y bydd yn rhaid i'r dull a awgrymwn ni gael ei gymhwyso gan staff Swyddfa Ranbarthol Llywodraeth Cymru ar safleoedd anstatudol sy'n dod i mewn i'r Glastir Sylfaenol a Thiroedd Comin Glastir. Yn y cyd-destun hwn, nid y cyfraddau stocio uchaf fydd yn darparu'r diogelwch amgylcheddol angenrheidiol, ond y cyfartaledd blynyddol. Rôl y cyfraddau uchaf fydd darparu'r ffermwr â mwy o hyblygrwydd o fewn cyd-destun y cyfartaledd blynyddol.

Yn olaf, gall bugeila da byw ar llystyfiant ucheldir helpu i ddelio ag amrywiadau gofodol mewn mathau o llystyfiant ac unrhyw batrymau pori anaddas. Mae gofynion Archwilio cyfredol yr Undeb Ewropeaidd o ran gwirio cyflenwad

amodau'n golygu fod delio â'r angen i fugeilio'n anodd iawn yn aml. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu trafodaethau pellach â Llywodraeth Cymru ar y mater yma.

5.3. Annog pori cymysg

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi'n gryf y cynnig i gynorthwyo arallgyfeiriad da byw yn yr ucheldir yn ogystal ag ar gynefinoedd iseldir agored. Mae gwartheg a merlod gwyllt â rôl werthfawr yn creu cyflyrau mwy agored; yn torri ar oruchafiaeth rhywogaethau fel glaswellt y bwla, rhedyn ac eithin. Mae'r gymysgedd ganlyniadol o gynefinoedd yn cynnal mwy o amrywiaeth o blanhigion gwlyptir, infertebratau fel glöyn byw brith y gors ac adar hirgoes fel y giach, y goesgoch a'r cwtiad aur.

Mae'r dull presennol o gyfrifo cyfraddau talu dan y cynlluniau amaeth-amgylchedd yn seiliedig ar y "taliad colli incwm yn ogystal â'r costau" wrth ddilyn amod penodol. Gall y dull hwn weithio'n dda pan fydd angen gostyngiadau mewn pori, ond mae'n amhriodol pan fydd angen cynnal neu wella gweithgaredd amaethyddol penodol. Yn y sefyllfaoedd hyn mae'n fwy rhesymol cyfrannu tuag at "gostau sefydlog" y ffurf reoli a ddymunir¹⁷.

Felly mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi darpariaeth cyfleusterau i drin a chartrefu da byw yn ogystal ag ystyried y costau sydd ynglŷn â rheoli gwartheg a merlod ar ardaloedd agored. Dylid trefnu mesurau CDG eraill mewn ffordd integredig yn rhan o annog patrymau pori cymysg. Er enghraifft, gallai'r CDG newydd ddelio â chyflwyniad technolegau newydd, labelu bwyd, cymorth i ladd-dai bach ac adleoliad "pencampwyr" lleol sy'n gallu cynghori ar faterion rheoli sy'n gysylltiedig â gwartheg a merlod¹⁸.

Mae pori cymysg yn llai addas i laswelltir corsiog iseldir caeedig, yn enwedig lle mae gloynnod brith y gors yn bresennol. Mae planhigion bwyd y glöyn yma'n cael eu pori'n ddewisol gan ddefaid ac argymhellir y dylai opsiwn glaswelltir corsiog nodi'r defnydd o wartheg a/neu ferlod yn unig. Neu gellid cynnig premiwm yn gyfnewid am ddefnyddio dim ond gwartheg.

5.4. Defnyddio cymorth targedol i reoli rhedyn

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi'r cynnig yma sy'n creu cyfleoedd ychwanegol i greu coetir yn ogystal â chyfrannu'n well i reolaeth cynefinoedd presennol.

Canlyniad lleihau'r rhedyn sydd ar lawer o ardaloedd agored fydd manteision amgylcheddol - un ai drwy leihau'n uniongyrchol effaith y rhedyn ar rywogaethau sensitif neu drwy sicrhau y gllir pori cynefinoedd sydd wedi'u lled-wella'n fwy effeithiol. Rydyn ni'n croesawu'r gydnabyddiaeth fod dulliau

¹⁷ Land Use Policy Group (2011). *Alternative payment approaches for non-economic farming systems delivering environmental public goods*. Scottish Agricultural College and Institute for European Environmental Policy.

¹⁸ *Examining the role of cattle grazing in delivering improved biodiversity outcomes in the uplands* (2011). Report by Cumulus Consultants in association with AgriPlan Cymru. Countryside Council for Wales Research Report No 11/7 (269 EPG 10).

diogelu'n angenrheidiol ar safleoedd sydd â rhywogaethau allweddol sy'n dibynnu ar orchudd rhedyn fel gloÿnnod brith a chorhedydd y coed.

Mae defnydd awgrymedig o'r Cynllun Grantiau Bach i reoli rhedyn yn awgrymu y bydd angen rhyw gyfyngiad ar wariant. Os na, gallai mwyafrif y cronfeydd gael eu gwario'n gyflym iawn ar fesurau poblogaidd fel rheoli rhedyn, yn enwedig os byddai hynny'n cynnwys chwistrellu o'r awyr. Bydd costau rheoli rhedyn yn effeithiol dros ardaloedd eang yn sylweddol iawn ac fe allai fod yn fwy priodol lleoli'r mesur yma yn rhywle arall o fewn y CDG.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n gallu cyfrannu i'r sail tystiolaeth sy'n ofynnol i danategu ardaloedd eang o reolaeth rhedyn, yn enwedig o ran yr effaith potensial ar rywogaethau adran 42.

5.5. Creu ardal darged flaenoriaethol ychwanegol ar gyfer Glastir Uwch sy'n cwmpasu tir fferm caeedig dros 400m

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi'r cynnig hwn, sy'n helpu i ddelio ag anghenion y ffermwyr hynny sy'n methu â chyrchu cynllun tiroedd comin Glastir. Mae'n bosib y bydd angen rhyw fath o fesur interim i bontio'r bwlch rhwng unrhyw leihad mewn taliadau uniongyrchol a fydd yn codi o ddefnyddio'r parth rhostir newydd a chyflwyniad yr ymagwedd newydd dan Lastir Uwch.

Yn dilyn rownd ddiweddaraf diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, bydd pob tir dros 400m yn derbyn lefel sylweddol is o Daliadau Uniongyrchol. Gall llawer o ffermwyr sydd â glaswelltir asid cynhyrchiol yn amaethyddol o fewn y parth hwn ddewis lleihau eu lefel o weithgaredd ffermio, yn enwedig gan gefnu ar ddefnyddio gwartheg. Gallai cymhwyso Glastir Uwch i'r ardaloedd hyn helpu drwy amnewid rhan o'r taliad uniongyrchol blaenorol â contract newydd i ddarparu manteision amgylcheddol penodedig e.e. drwy bori'r tir â gwartheg neu flocio draeniau presennol yn rhan o reoli ansawdd dŵr, carbon a bioamrywiaeth.

C6: Beth yw eich barn chi ar gynigion Llywodraeth Cymru i gefnogi rheolaeth a chreu coetir dan y CDG nesaf?

6.1 Dyrannu mwy o gyllideb y CDG i blannu a rheoli coetiroedd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi'n gryf y cynnig i gynyddu buddsoddiad mewn plannu a rheoli coetir mewn cydnabyddiaeth o'r ystod eang o wasanaethau ecosystem a ddarperir gan y mesurau hyn. Mae angen màs critigol digonol i ddarparu gwelliannau gwirioneddol, yn enwedig ar raddfa dalgylch. Yr un pryd bydd yn bwysig targedu lle gall creu a rheoli coetir gyflenwi'r lles amgylcheddol mwyaf, ac ar yr un pryd osgoi difrod i gynefinoedd a rhywogaethau adran 42.

Yn rhan o ddatblygu ymagwedd newydd tuag at elfen coetir Glastir, bydd angen cyfeirio'r ffordd y mae pob rhan o'r Cynllun yn perthyn i'r lleill. Yn benodol, gellid gweld grantiau bach ar gyfer plannu coed fel cynllun "camau cyntaf". Bydd yn werth ailymweld â'r gwersi a ddysgwyd o'r cynllun llyddiannus blaenorol gan Goed Cymru.

Rydym yn croesawu ymagwedd fwy hyblyg tuag at ddefnydd contractau coetir Glastir a'r cynnig i leihau amseroedd aros i ymgeiswyr. Bydd y cynnydd arfaethedig mewn cyllideb yn helpu i ddelio â chreu coetir newydd, cyflwyniad rheolaeth coetir cynaliadwy a delio ag effeithiau clefydau coed. Mae cyfyngiadau ar niferoedd staff wedi cyfyngu ar yr ystod o opsiynau rheoli coetir a gynigir dan gontractau Glastir Uwch gyda blaenoriaethau ddim yn cael sylw bob amser ar AoDdGA coetir.

Mae angen mwy o hyblygrwydd o fewn y Cynllun Rheoli Coetir Glastir er mwyn adfer planhigfeydd ar safleoedd coetiroedd hynafol (PAWS). Un opsiwn fyddai i'r taliadau adfer cynefin coetir newydd arfaethedig fod ar gael ar gyfer adfer PAWS hefyd. Byddai hyn yn cefnogi perchnogion fforestydd i ymgymryd â rheolaeth arferion gorau, fel teneuo graddol.

Rydyn ni'n cefnogi'r arfer cyfredol o beidio â chaniatáu cymorth grant ar gyfer ail-blannu conifferau o fewn PAWS. Mae effaith *Phytophthora ramorum* (a gwarediad cysylltiedig y llarwydd) yn ystyriaeth allweddol gan fod rhywogaethau conifferau eraill yn llai addas i gael eu defnyddio fel elfennau o gynlluniau adfer PAWS.

Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru nifer o gyfrifoldebau rheoleiddiol o ran coetiroedd, yn enwedig Trwyddedau Cwmpo, Hysbysiadau Statudol Iechyd Planhigion ac Asesiad o Effaith Amgylcheddol Rheoliadau Coedwigaeth. Rydyn ni felly mewn sefyllfa dda i ymgymryd â'r asesiad technegol o gynlluniau coetiroedd Glastir, er y byddai unrhyw newid felly mewn cyfrifoldebau'n gofyn am ddyraniad adnoddau priodol i Gyfoeth Naturiol Cymru gan Lywodraeth Cymru. Bydd angen trafodaethau pellach hefyd i egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau.

6.2. Alinio Creu Coetiroedd Glastir â Chod Carbon Coetiroedd

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi'r cynnig hwn yn gryf a dymuna weithio â Llywodraeth Cymru i wneud Glastir yn rhan o fecanwaith ymarferol ar gyfer taliadau gwasanaethau ecosystem yn ogystal â datblygu cynlluniau addas eraill i wobrwyo darpariaeth gwasanaethau ecosystemau.

Mae'r Cod Carbon Coetiroedd yn achredu atafaeliad carbon coetiroedd fel y gall cynlluniau plannu coedwigaeth ddenu cyllid o gyllidebau cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol. Mae'n darparu model y gellir ei ymestyn i farchnadoedd ar gyfer gwasanaethau ecosystem eraill. Mae'r Cod Carbon Coetiroedd yn cynnwys meini prawf cynaladwyedd caeth i sicrhau nad yw rheolaeth coetir ar gyfer carbon yn niweidiol i wasanaethau ecosystem eraill. Mae yna bymtheg o brosiectau peilot yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd a saith o safleoedd cofrestredig yng Nghymru gyda chyfanswm credydau o 116ktC¹⁹.

¹⁹ Woodland Carbon Code

6.3. Dyfarnu contractau Rheolaeth Coetiroedd Glastir ar sail dreigl, gyda thaliadau'n dechrau ar ddechrau'r flwyddyn galendr nesaf.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi'r dull gweithredu yma sydd i'w weld yn drychweddu'r system a ddefnyddir ar gyfer contractau amaethyddol

6.4. Adolygu'r Map Cyfleodd Coetiroedd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi'r cynnig hwn. Gellid cysylltu'r map â chynhyrchiad Cynlluniau Rheoli Coedwigoedd, gyda'r broses ddylunio'n cael ei defnyddio i gydbwysu'r ystod posib o fanteision a lleihau'r risg o effeithiau negyddol anfwriadol.

Dylai'r adolygiad arfaethedig ddelio â'r potensial o leihau llifogydd mewn cymunedau sydd mewn perygl; taclo llygredd gwasgaredig; gwella cydnherthedd ffermydd unigol a datblygu rhwydweithiau cynefin a fydd yn cynorthwyo natur a phobl i addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Gall coetiroedd elwa busnesau fferm yn sylweddol drwy ddarparu gwell cysgod, felly'n gwella iechyd a lles da byw. Gall creu coetiroedd a phlannu coed ar raddfa fechan elwa cymunedau lleol drwy gyfuniad o reoleiddiad tymheredd; gwella ansawdd aer; draeniad cynaliadwy a chyfleodd hamdden newydd.

Dylai'r Cynllun Creu Coetiroedd Glastir fod yn ddigon hyblyg i sicrhau defnyddio'r math priodol o goetir ar bob safle, gyda'r dewis o rywogaethau coed yn ystyried proffwydoliaethau newid yn yr hinsawdd. Mae'n ymddangos fod angen ysgogiadau ychwanegol yn rhan o'r anogaeth i ehangu coetiroedd mewn ardaloedd sydd o werth ecolegol mawr. Er enghraifft, aildyfiant naturiol fyddai'r opsiwn gorau mewn rhai lleoliadau, ond mae'n anghymwys i gael cyllid Glastir ar hyn o bryd.

Fe luniwyd y system 'goleuadau traffig' sy'n tanategu'r Map Cyfleodd Coetiroedd yn wreiddiol fel canllaw i ble roedd angen ymgynghori. Cafwyd problemau o ganlyniad i gyfyngiadau cyfredol ar argaeledd mapiau manwl a chyson ar gyfer yr holl gynefinoedd a rhywogaethau ledled Cymru. Dylid defnyddio mapiau dim ond fel canllaw; bydd mewnbyn gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol yn ofynnol bob amser er mwyn asesu addasrwydd safleoedd ar gyfer plannu.

Mae ehangiad coetiroedd â llawer o fanteision ac mae'n darged gan Lywodraeth Cymru'n ogystal ag ymrwymiad yn Strategaeth Coetiroedd Llywodraeth Cymru. Bydd targedu gofalus plannu coetiroedd newydd ochr yn ochr â'r angen i ddiogelu cynefinoedd lled-naturiol yn hanfodol. Mae Papur Gwyn y Bil Amgylchedd yn cynnig y dylai Gweinidogion Cymreig roi datganiad ar Bolisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol ac y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru fwrw ymlaen â dull gweithredu sy'n seiliedig ar ardal. Yn y ddau achos bydd angen nodi'r defnydd gorau ar gyfer tir er mwyn cynyddu cymaint ag sydd bosib ar y manteision i'r amgylchedd, yr economi a phobl Cymru.

Mae angen integreiddio plannu newydd ar dir amaethyddol o fewn y busnes os ydyn nhw i apelio at ffermwyr. Mae'r prosiect Pontbren wedi dangos y gall plannu ardaloedd bychan o dir ddarparu manteision niferus heb leihau

cynhyrchiant amaethyddol. Mae coetiroedd newydd wedi helpu â rheolaeth da byw gan greu lleiniau cysgodi newydd a galluogi gwell rheolaeth o dda byw, yn enwedig yn agos at nentydd. Gall plannu newydd wella gwynwch o ran digwyddiadau o dywydd eithafol hefyd drwy gynyddu cyfradd ymdreiddiad dŵr glaw i'r pridd, lleihau dŵr ffo a'r risg o lifogydd i gymunedau i lawr yr afon. Mae adroddiad diweddar ar Bontbren yn datgan: *"Mae'r ffermwyr yn teimlo hefyd fod integreiddiad llwyddiannus rheolaeth coetiroedd mewn ffermio da byw yn yr ucheldir wedi 'diogelu eu ffermydd rhag y dyfodol', drwy wella gwerth cyfalaf y tir gan ei wneud yn fwy gwydn i effeithiau digwyddiadau o dywydd eithafol wrth i'r hinsawdd newid, a lleihau'n sylweddol y risg o dor-bioddiogelwch damweiniol a safonau llygredd dŵr²⁰."* Yn ystod yr eira difrifol yn gynnar yn 2013, fe adroddodd ffermwyr lai o luwchfeydd eira yn ogystal â thwf gwair cynharach oherwydd y microhinsawdd a grëwyd yng nghysgod y lleiniau cysgodi. Dylid cyfathrebu manteisio potensial fel hyn yn glir i ffermwyr o'r dechrau.

Bydd cyfraniad ychwanegol i'r map cyfleoedd coetiroedd ar gael yn fuan drwy waith parhaus Defra, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn tynnu ar wybodaeth statws y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac yn edrych ar lwythi gwaddod, ffosffadau, nitradau, plaladdwyr ac organebau carthol drwy gymysgedd o fethiannau hysbys cyrff dŵr a modelu. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi comisiynu gwaith pellach ar gyfer dalgylchoedd Dyfi, Tawe a'r Rhondda'n rhan o brofi ymagwedd integredig tuag at reoli adnoddau naturiol.

6.5. Creu gwasanaeth cynghori cysylltiedig i gwmpasu pob agwedd amaeth-amgylchedd a choedwigaeth

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi'r cynnig hwn yn gryf.

Byddai dewis y safleoedd ar gyfer creu coetiroedd yn cael ei wella drwy gael staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda i roi mewnbwn i baratoad y Cynlluniau Rheoli Coedwigoedd. Mae'r broses bresennol yn seiliedig ar gyflenwi cynllun syml gyn rhated ag sydd bosib, ond dylai darparu gwell dadleuon a chyngor (fel yn adran 3.6.3 y ddogfen ymgynghori) i wella gallu'r cynllun i gyflenwi manteision lluosog.

Dylai gwasanaeth cynghori cysylltiedig i gwmpasu amaethyddiaeth a choedwigaeth gefnogi cyflwyniad cymysgedd briodol o ymyriadau ar y raddfa briodol. Yn benodol, dylai'r dull newydd allu cyflenwi ymyriadau ar raddfa dalgylch sy'n alluog o ddarparu ymagwedd integredig tuag at reoli'r risg o lifogydd, ansawdd dŵr, bioamrywiaeth, tirwedd a hamdden.

Dylai gwasanaeth cynghori newydd geisio integreiddio rheolaeth coetiroedd ac amaethyddiaeth hefyd. Mae'r rhan fwyaf o'r coetiroedd sydd wedi'u tanreoli yng Nghymru ar dir fferm.

Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru'n barod, mewn egwyddor, i gyfrannu i broses o drosglwyddo gwybodaeth drwy ddarparu gwasanaeth cynghori'n seiliedig ar

²⁰ Prosiect Pontbren: Dull o reoli tir yn gynaliadwy yn yr ucheldiroedd, sy'n cael ei lywio gan ffermwyr. (2013). Coed Cadw a Choed Cymru.

swyddog dalgylch i gwmpasu elfennau coedwigaeth a chreu coetiroedd Glastir. Byddai angen i wasanaeth felly fod yn rhan o bartneriaeth ehangach yn cynnwys staff Glastir Llywodraeth Cymru, cyrff anllywodraethol a'r sector breifat. Dim ond os byddai costau llawn gwasanaeth newydd fel hyn yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru (gan ddefnyddio darpariaethau'r trosglwyddiad gwybodaeth, erthyglau cyngor a chydweithrediad o fewn Rheoliad Datblygu Gwledig newydd y Gymuned Ewropeaidd), y bydden ni'n gwneud hyn. Bydd angen trafodaeth bellach i egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau.

6.6. Cefnogaeth barhaus i fuddsoddi mewn BBaCh coedwigaeth gan ddefnyddio modelau tebyg i'r Grant Prosesu a Marchnata cyfredol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu'r cynigion i gefnogi rheolaeth coetiroedd a chyflwyno mesurau i wneud coetiroedd yn fwy hunangynhaliol yn economaidd. Mae angen cymorth i gyfarfod ag amcanion rheoli coedwig yn gynaliadwy. Mae'r cynigion yn gyflin i'r rheiny a roddwyd ar gael i'r sector amaethyddol dan y Cynllun Cynhyrchu Cynaliadwy newydd. Dylid gwneud yr holl fuddsoddiadau o fewn cyd-destun Cynllun priodol o Reoli Coedwig.

6.7. Cymorth parhaus i reolaeth coetir yn cynnwys gwell perfformiad economaidd a defnyddio taliadau adfer

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi'n gryf gyflwyniad fframwaith Cynllun Rheoli Coedwig syml yn rhan o Gynllun Rheoli Coetiroedd Glastir. Byddai cynlluniau felly'n galluogi perchnogion tir reoli eu coetiroedd yn fwy effeithiol. Dylai lefel y manylion fod yn gymesur â maint coetir a'i arwyddocâd. Dylid cyflwyno rhyw fath o ddarpariaeth *de-minimis* hefyd.

Dylai Cynlluniau Rheoli Coetiroedd gynorthwyo perchnogion i gael ardystiad drwy ddelio ag elfennau perthnasol Cynllun Ansawdd Coetiroedd y Deyrnas Unedig (UKWAS). Dylai cyfryngwyr sydd â'r sgiliau priodol baratoi'r holl gynlluniau. Gellid rhoi'r dasg o adolygu a chymeradwyo Cynlluniau Rheoli Coetiroedd i Gyfoeth Naturiol Cymru'n gyfochrog â gwneud penderfyniadau rheoleiddiol o ran Trwyddedau Cwmpo, Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol a Rheoliadau Asesiad o Effaith Amgylcheddol. Byddai unrhyw newid felly mewn cyfrifoldebau angen dyraniad adnoddau priodol i Gyfoeth Naturiol Cymru gan Lywodraeth Cymru.

Rydyn ni'n cefnogi defnyddio taliadau'n seiliedig ar ardal ar gyfer "adfer cynefin coetir" ond mae'r enghreifftiau a ddarperir yn y ddogfen ymgynghori'n gyfyngedig i ddisgrifio symudiad i gynefinoedd mwy agored. Gallai taliadau'n seiliedig ar ardal gynorthwyo trosiad i goetir brodorol neu greu gofod agored integrol o fewn ardaloedd fforestedig. Byddai mesurau felly'n gyson â Chanllawiau Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig ar Fioamrywiaeth.

Mae yna groeso i ddefnydd arfaethedig taliadau ardal ar gyfer mawndiroedd fforestedig. Mae nifer o safleoedd blaenoriaeth eisoes wedi eu nodi yng

Nghymru²¹. Bydd taliadau ardal yn creu mecanwaith ychwanegol i ddelio â thargedau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn ogystal â gwella gwytnwch yn erbyn digwyddiadau o law eithafol.

Dylai taliadau adfer cynefin coetiroedd, wrth geisio delio â phroblem asideiddio, dargedu ailstrwythuro tymor hir o fewn cyd-destun Cynllun Rheoli Coedwig. Mae angen i unrhyw waredu coetir er mwyn cwtogi ar waredu llygryddion yn yr awyr, fod yn gyson â Chanllawiau Coedwigaeth a Dŵr Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig (UKFS). Mae opsiynau ychwanegol i wella ansawdd dŵr o fewn dalgylchoedd coediog, fel gwella effeithiau systemau draenio hanesyddol a blaenoriaethu gwaith i ddiogelu cynefinoedd sydd mewn perygl o asideiddiad, wedi eu nod yng Nghanllawiau'r UKFS ar systemau draenio gwell. Gellid cynorthwyo llawer o'r gwaith sy'n ofynnol yn ystod ymyriadau rheoli coetiroedd fel teneuo, cwmpo neu ail-stocio.

6.8. Blaenoriaethu ailblannu clystyrau coedwig sydd wedi eu heffeithio â chlefyd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, mewn egwyddor, yn cefnogi cynigion i gynnal gorchudd coedwigoedd presennol drwy flaenoriaethu ailblannu clystyrau sydd wedi eu heffeithio ag afiechyd yn hytrach na chreu coetiroedd newydd.

Dylid targedu cymorth ar gyfer adfer coetiroedd at yr ardaloedd hynny lle mae ailblannu a dychweliad i orchudd coed yn flaenoriaeth. Gellid defnyddio system haenau gwrthrychol yn seiliedig ar GIS fel yn y Glastir Uwch. Dylai'r pwyslais fod ar safleoedd statudol, Coetiroedd Hynafol a chreu rhwydweithiau cynefin sy'n fwy cydnorth. Dylid cydbwysu'r dull yma yn erbyn yr angen i ddychwelyd coetiroedd sydd wedi'u cwmpo'n gynamserol i gynhyrchiant. Dylai dewis rhywogaethau ystyried yr angen i wella gwytnwch coetiroedd i newidiadau yn yr hinsawdd yn ogystal â ffactorau lleol perthnasol e.e. drwy ddefnyddio rheolau syml fel "dim plannu conifferau ar safleoedd coetir hynafol" fel sy'n digwydd eisoes â Glastir.

6.9. Cymorth i fonitro achosion o glefyd coed ac adfer coetiroedd sydd wedi'u difrodi

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu'r awgrym y gellid defnyddio mesurau Cymorth Technegol y CDG i gynorthwyo â gwaith arolygu ar *Chalara fraxinea*. Cred Cyfoeth Naturiol Cymru y gallai'r afiechyd gael effaith sylweddol oherwydd y perygl o golli coed ynn ar raddfa fawr mewn coetiroedd ac yn ehangach yng nghefn gwlad. Fe fydd hyn ag effeithiau niweidiol ehangach, yn enwedig ar dirwedd a bioamrywiaeth.

²¹ A Strategic Assessment of the Afforested Peat Resource in Wales. Elena Vangelova, Samantha Broadmeadow, Russell Anderson, Sirwan Yamulki, Tim Randle, Tom Nisbet and James Morison. October 2012.

Yn dilyn trafodaethau diweddar yng Ngrŵp Llywio Iechyd Coed Llywodraeth Cymru, rydym yn deall y gellid rhoi dyletswydd newydd i Gyfoeth Naturiol Cymru i ymgymryd â monitro, gwyliadwriaeth a gwaith cynghori o ran clefyd coed. Os felly y bydd, bydd angen lefel priodol o gymorth i Gyfoeth Naturiol Cymru dan gyllideb Cymorth Technegol y CDG. Byddai unrhyw waith a wneir yn ôl dyletswydd felly o fantais yn naturiol i'r sector breifat yn ogystal â Stad Goed Llywodraeth Cymru.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi, mewn egwyddor, y cynnig i gynnal gorchudd coedwig sy'n bod yn barod drwy gefnogi ail-blannu clystyrau sydd wedi eu heffeithio â chlefyd yn hytrach na chreu coetiroedd newydd. Dylid targedu rhaglenni adfer at yr ardaloedd hynny lle mae ailblannu a dychweliad i orchudd coed yn flaenoriaeth. Dylid trefnu grant ail-stocio hygyrch i gynorthwyo perchnogion coetir preifat a rheolwyr i sicrhau fod yr holl ailblannu mor gydnerth ag sydd bosib. O ystyried graddfa ddigynsail heintiad coed llarwydd â *Phytophthora ramorum* yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf, byddai'n fanteisiol pe gellid defnyddio darpariaethau Coedwig y Wlad o fewn y Rheoliad Datblygu Gwledig newydd i ddelio ag unrhyw danwario yn y gyllideb coetiroedd.

Dylid adfer unrhyw safle sydd wedi'i nodi'n blanhigfa ar Safle Coetir Hynafol (PAWS), fel rhan o'r broses o adfer coetir, yn goetir llydanddail. Mae'n bosib y bydd angen cymhelliant ychwanegol i wneud coed llydanddail yn atyniadol i'r perchnogion hynny sy'n dymuno dilyn amcanion masnachol. Fel arall gall perchnogion felly ddewis ailblannu â rhywogaethau masnachol y tu allan i unrhyw gynllun grant.

Gellid buddsoddi cyllid y CDG a/neu'r ERDF mewn meithrinfeydd coed lleol i sbarduno cyfleoedd busnes lleol. Gallai Llywodraeth Cymru gydnabod y cynllun Nod Siarter mewn rhannau perthnasol o ganllawiau'r cynllun Glastir ac yn rhan o gyrсияu hyfforddi ar gyfer cynghorwyr a chyfranogwyr.

Lle bydd rhywogaethau brodorol yn cael eu plannu, rydyn ni'n cymeradwyo bod Llywodraeth Cymru'n pwysleisio pwysigrwydd defnyddio stoc o darddiad lleol. Bydd hynny'n sicrhau fod coed yn siwtio'r amgylchiadau lleol yn enynnol. Mae yna nifer o feithrinfeydd Cymreig eisoes yn arbenigo mewn coed o darddiad lleol.

C7: Beth yw eich barn chi ar gynigion Llywodraeth Cymru i wella ymyriadau targedol dan y CDG nesaf?

7.1. Comisiynu gwerthusiad o gontractau Glastir presennol a'r graddau y maen nhw'n cyflenwi yn erbyn amcanion.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu'r cynnig hwn. Dylai proses systematig o werthuso helpu i sicrhau fod Llywodraeth Cymru a'r rhanddeiliaid perthnasol yn gallu cymryd ymagwedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth tuag at yr adolygiad arfaethedig o ganllawiau gweithio Rheolwr y Contract.

Dylai Prosiect cyfredol Llywodraeth Cymru o Fonitro a Gwerthuso Glastir (fel y'i harweinig gan y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg) gynorthwyo â'r gwerthusiad arfaethedig. Bydd yn bwysig sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei wneud ar lefel gywir o ran manylder. Er enghraifft, wrth ddelio â rhywogaethau arbennig, dylai'r amodau dewisol allu cyfarfod â'r holl ofynion ar gyfer y gwahanol rannau'r cylch bywyd.

Dylai'r rhesymau am ddiffyg darpariaeth mynediad cyhoeddus o fewn contractau Glastir uwch gael eu hymchwilio. Mae'r cynllun yn dal yn y camau cyntaf a gallai'r diffyg derbyn adlewyrchu barn ffermwyr neu'r Rheolwyr Contract. Dylai gwerthuso adborth gan ymgeiswyr yn ogystal â chan staff Glastir helpu i nodi'r problemau.

7.3. Adolygu canllawiau'r Rheolwr Contract a darparu hyfforddiant ychwanegol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi'r cynnig hwn a byddai'n croesawu cyfle i gyfrannu i'r adolygiad ac unrhyw raglenni hyfforddi dilynol. Ar hyn o bryd rydyn ni'n darparu hyfforddiant ar gyfer Rheolwyr Contract ar ansawdd dŵr a materion bioamrywiaeth. Rydyn ni hefyd yn rhagweld y byddwn yn cyfrannu i wasanaeth cynghori newydd ar goedwigaeth yn y dyfodol. Mae ein rôl bresennol yn helpu i sicrhau dealltwriaeth gyffredin o'r cyngor arbenigol rydyn ni'n ei ddarparu ar AoDdGA ac ar ffermydd mewn ardaloedd blaenoriaeth ansawdd dŵr.

Rydym yn dal yn bryderus ynglŷn â diffyg amodau rhywogaethau pwrpasol ynghyd â'r diffyg targedu sy'n gysylltiedig. Mae hyn, yn benodol, wedi lleihau gallu Glastir i gyfrannu i'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio. Er mwyn cwblhau eu cylchoedd bywyd mae ar weny, pryfed hofran a pheillwyr eraill angen tirwedd gymysg sydd â chynefinoedd sy'n gyfoethog o flodau dros gyfnod estynedig o Ebrill i Fedi. Bydd sicrhau fod mwy o borfeydd sydd wedi'u lled-wella, gweirgloddiau, gwlyptiroedd, gwrychoedd, prysg a gwyndynnydd sy'n gyfoethog o godlysiau ar gael, yn helpu i atal y cyfraddau cyfredol o ddirywiad.

Mae amodau rheoli penodedig sy'n addas ar gyfer peillwyr yn cynnwys cyflwyno dyddiadau torri hyblyg ar gyfer gwair a phorfeydd brwyn fel y gall cyfran o laswelltir sy'n gyfoethog o flodau ddarparu porthiant sy'n gyfoethog o neithdar hyd fis Medi. Yn ogystal, dylid gadael cyfran o bob glaswelltir sy'n gyfoethog o flodau heb ei bori yn yr haf fel rhan o gylchdro). Dylid hefyd adolygu'r lefel uchaf o fewnbwn gwrtait (gweler sylwadau yn adran 3.2).

Mae cynllun Glastir lefel Sylfaenol yn helpu i sicrhau fod ffermwyr yn cyfarfod â'u hobjygiadau cyfreithiol o ran hawliau tramwy cyhoeddus yn ogystal ag ar dir mynediad. Mae hyn hefyd yn helpu i gefnogi gwaith yr Awdurdodau Prifffyrdd Lleol. Mae profiad o gynlluniau blaenorol, ynghyd ag adborth mwy diweddar, yn awgrymu y gellid gwella ar weithrediad y cynllun drwy:

- Gymryd ymagwedd fwy rhagweithiol i ofalu fod ffermwyr yn fwy ymwybodol o'u hobjygiadau o ran mynediad i'r cyhoedd;
- Gofalu fod cynlluniau unigol yn cael eu sefydlu lle bydd hynny'n angenrheidiol, er mwyn datrys unrhyw ddiffyg cydymffurfio potensial;

- Gweithio'n agosach ag Awdurdodau Priffyrdd Lleol i ddatrys unrhyw broblemau o ddiffyg cydymffurfio pan ddeuir â materion felly i sylw Arolygiaeth Wledig Cymru a staff Glastir.

7.4. Ail-werthuso haenau gwrthrychol Glastir Uwch.

Cred Cyfoeth Naturiol Cymru ei bod yn synhwyrol gwerthuso ansawdd yr haenau GIS presennol. Er enghraifft, gallai Llywodraeth Cymru ystyried gwella'r asesiadau o fesurau i leihau'r risg o lifogydd yn ogystal â blaenoriaethu derbyniad mesurau Rheoli Llifogydd yn Naturiol o fewn y dalgylchoedd hynny a fyddai'n fwyaf tebygol o elwa.

Mewn egwyddor, byddai'n well gennym weld yr haenau mwyaf problemus yn cael eu gwella'n hytrach na'u hisraddio. Bydd y casgliad o wybodaeth (a'i flaenoriaethu cymharol yn ôl gweithdrefn resymol a ddyluniwyd i gyflenwi yn erbyn amcanion Llywodraeth Cymru) yn ganolog i gyflenwi'r dull gweithredu ecosystem yng Nghymru. Mae Glastir Uwch wedi gwneud cynnydd arwyddocaol o ran hyn – a bydd buddsoddi pellach (drwy gyllideb Cymorth Technegol y CDG o bosib) yn helpu i elwa'r broses o ddatblygu ymagwedd fwy integredig tuag at Reolaeth Adnoddau Naturiol.

Mae'n amlwg fod rhai daliadau sydd â gwerth bioamrywiaeth arwyddocaol iawn yn methu sgorio digon o bwyntiau i gael mynediad i'r Glastir Uwch. Mae'n ymddangos fod y broblem hon yn ymwneud a sefyllfaoedd lle nad yw'r nodweddion perthnasol (fel ffynghau glaswelltir) wedi eu gwarchod gan haen wrthrychol ac nad oes yna chwaith unrhyw amodau cyfatebol. Gellid delio â'r mathau hyn o broblemau un ai drwy wella ansawdd haenau gwrthrychol Glastir neu'n rhan o'r Cynllun Rhwydwaith Cynefin newydd arfaethedig ar gyfer rhan o fferm.

Byddai gallu Glastir i gyflenwi yn erbyn amcanion lluosog yn cael ei wella ymhellach fyth pe byddai Rheolwyr Contract yn gallu defnyddio arfau penderfynu gofodol fel Polyscape. Mae ymchwil ym Mynyddoedd y Cambria wedi dangos gwerth potensial yr arf yma i gynorthwyo ffermwyr a'u cynghorwyr â'r mathau o benderfyniadau "manwl iawn" sy'n angenrheidiol i danategu cynlluniau wrth raddfa tirwedd a dalgylch²².

Mae Polyscape yn ddelfrydol i wneud argymhellion bras a blaenoriaethu newid mewn defnydd tir. Yna gall y ffermwr wneud penderfyniadau manylach yn seiliedig ar eu gwybodaeth bresennol a hanesyddol ac arferion cyfredol. Er enghraifft, gallai haenau GIS Glastir ddynodi y byddai plannu coed mewn dalgylch yn lleihau'r risg o lifogydd, tra gall Polyscape, o'i ddefnyddio ynghyd â gwybodaeth leol, flaenoriaethu'r newidiadau sydd eu hangen. O ganlyniad, gellir nodi lleoliad blociau plannu unigol mewn ffyrdd sy'n fwyaf synhwyrol o ran y dull ecosystem - gan ystyried anghenion cynhyrchu amaethyddol cynaliadwy yn ogystal â blaenoriaethau amgylcheddol.

7.5. Dileu'r gofyniad i Reolwyr Contract nodi gweithgaredd ar gyfer yr haenau GIS hynny sydd ddim yn bodloni meini prawf "prif amcan"

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru â phryderon ynglŷn â'r effeithiau gwrthnysig a allai godi o'r cynnig hwn. Tueddir i gysylltu'r haenau mwyaf problemus â'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a rhywogaethau adran 42. Bydd israddio statws yr haenau hyn yn newid y cydbwysedd rhwng amcanion Glastir. Tra dylai'r ateb tymor hir i'r broblem hon gynnwys gwella ansawdd yr haenau perthnasol, mae dulliau gwahanol ar gael yn y tymor byr. Er enghraifft, gellid rhoi mwy o ystyriaeth i wella ansawdd data mewn perthynas â'r rhywogaethau hynny y mae eu hanghenion yn annhebygol o gael eu bodloni gan ymagwedd sy'n fwy cyffredinol tuag at "reoli cynefin yn dda". Yna gellid targedu rhywogaethau felly'n rhan o'r Cynllun Rhwydwaith Cynefin newydd arfaethedig.

7.6. Datblygu cynllun rhwydwaith cynefin ar gyfer rhan o fferm yn gynnar yn y CDG nesaf

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi'r cynnig hwn yn gryf a byddai'n croesawu cyfle i gyfrannu i ddyluniad y cynllun newydd.

Wrth ddelio â rhywogaethau sy'n gweithredu fel meta-boblogaethau (fel glöyn brith y gors) bydd angen i'r cynllun weithredu ar raddfa tirwedd. Bydd Swyddogion Datblygu Rhanbarthol yn hanfodol i sicrhau'r nifer angenrheidiol sy'n derbyn. Gellid delio â phroblem taliadau ardal bychan ac sydd â'r potensial o fod yn anneniadol, drwy roi mwy o bwyslais ar:

- gostau trafod;
- y costau sefydlog sy'n gysylltiedig â'r dulliau mwy dymunol o reoli;
- cynyddu cyfradd yr ad-daliad am waith cyfalaf.

O weithredu'r cynllun newydd bydd angen parhau i fireinio haenau perthnasol GIS Uwch sy'n gwarchod y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a rhywogaethau adran 42 (gweler y sylwadau dan adran 7.5).

Lle bydd hynny'n bosib, dylai'r dull newydd arfaethedig fod wedi'i integreiddio â mentrau presennol y sector wirfoddol a Llywodraeth Cymru.

7.7. Ceisio cyfleoedd i wreiddio cyllid Taliad am Wasanaethau Ecosystem o fewn Glastir.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi datblygiad y cynlluniau Taliad am Wasanaethau Ecosystem. Bydd mecanweithiau presennol sy'n seiliedig ar y farchnad yn darparu manteision amgylcheddol a dylid annog cyfranogwyr Glastir i ymgysylltu â mentrau felly'n rhan o wreiddio arferion rheoli tir cynaliadwy yn y tymor hirach.

Dylai datblygiad y dull Taliad am Wasanaethau Ecosystem olygu mwy nag ail-becynnu mentrau presennol. Dylai ysgogi arloesiad a chyfleoedd newydd; creu marchnadoedd newydd a chynnwys cyfranogwyr newydd.

Fel rhan o'n hymateb i Bapur Gwyn diweddar Llywodraeth Cymru ar y Bil Amgylchedd arfaethedig, rydym ni eisoes wedi dangos ei bod yn bosib nad Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r corff mwyaf priodol i ymgymryd â'r swyddogaethau gofynnol o ran hwyluso, broceru, achredu a rheoli'r farchnad. Mae hynny oherwydd y gallem yn wir ddymuno cymryd rôl weithredol yn y farchnad Taliad am Wasanaethau Amgylcheddol a bydd angen osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau. Byddai dull gweithredu gwahanol yn golygu gwahaniad dyletswyddau'n ddigonol o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae llawer o'r pwyslais cyfredol ar Daliad am Wasanaethau Amgylcheddol yn golygu ceisio ffynonellau newydd o gyllid preifat. Oherwydd bod contractau Glastir yn awr yn cyfri am gyfran fawr o dir amaethyddol Cymru, mae cyfleoedd sylweddol yn bod i'r sector breifat brynu mwy o'r nwyddau cyhoeddus sy'n cael eu creu'n awr. Er enghraifft, gellid prynu cynnyrch fferm a choetir Glastir yn rhan o gontractau arlwygo awdurdodau lleol, yn amodol ar ofynion rheoliadau caffael yr Undeb Ewropeaidd. Felly hefyd, fe ddaw darpariaeth dull gweithredu ar raddfa dalgylch tuag at reoli'r risg o lifogydd yn fwy tebygol yn gynyddol wrth i gyfran y tir o fewn Glastir barhau i gynyddu.

Gellid defnyddio'r dull Taliad am Wasanaethau Ecosystem hefyd ar gyfer ailalinio arfordirol rheoledig. Gall trosi glaswelltir arfordirol yn gynefin rhynglanwol lled-naturiol helpu i wella "gwasgiad arfordirol". Mae cynefinoedd rhynglanwol â gwerth bioamrwiaeth uchel yn ôl eu hawl eu hunain yn ogystal â'u bod yn darparu gwasanaethau ecosystem drwy amsugniad ynni llanwol a chreu ardaloedd meithrin i bysgod môr.

Byddai'n fanteisiol hefyd gofalu y gellir alinio contractau Glastir ag unrhyw God Mawndir. Yn seiliedig ar fodel y Cod Carbon Coetiroedd, mae'r IUCN (International Union for the Conservation of Nature) yn ymgynghori ar hyn o bryd ar ffyrdd o hyrwyddo buddsoddiad mewn adfer mawndir²³. Ni dderbynnir, ar hyn o bryd, fod hyn yn cyfrannu i ostyngiadau mewn nwyon tŷ gwydr dan broses Kyoto. Fodd bynnag, mae'r Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd yn datblygu cyfarwyddyd ar gyfer adfer mawndir yn rhan o gofnodi stocrestr genedlaethol Nwyon Tŷ Gwydr. Dylai'r canllawiau hyn helpu i annog mwy o fuddsoddiad marchnad.

C8. Beth yw eich barn chi ar dargedau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Glastir a'i dyraniadau cyllidol arfaethedig dan y CDG nesaf?

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi pob un o'r targedau strategol arfaethedig, er rydym yn awgrymu y gellid cryfhau'r targed sy'n ymwneud ag addasu i'r hinsawdd ac adeiladu mwy o gydnerthedd i mewn i fusnesau gwledig drwy gyfeirio at ddefnyddio Mesurau Naturiol o Reoli Gorlif. Mae rhai mesurau fel plannu coed ar raddfa fechan eisoes wedi eu rhestru yn y ddogfen ymgynghori, ond gellid ychwanegu eraill fel ardaloedd storio gorlif at

y Glastir Uwch neu eu hintegreiddio â'r Cynllun drwy Daliad am Wasanaethau Ecosystema PES²⁴.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu'r cynnig i ddyrannu isafswm o 60% o gyllideb y CDG i'r mesurau ardal sef amaeth-amgylchedd-hinsawdd; organig; coedwigaeth yn ogystal â'r Natura 2000, Fframwaith Dŵr a Chyfarwyddebau Llifogydd. Tra bod y rhaniadau canrannol o fewn y gwahanol fesurau'n amlwg yn bwysig, bydd yn bwysig gofalu fod cyllid digonol ar gael yn gyffredinol. Fe amcangyfrifodd gwaith ymchwil blaenorol gan ADAS y byddai angen £165M i gyfarfod ag amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer bioamrywiaeth, tirweddau diwylliannol, lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, rholi'r risg o lifogydd, iechyd pridd, ac ansawdd dŵr²⁵. Mae hyn oddeutu dwbl y swm sy'n debygol o gael ei ddyrannu dan y rhaglen amaeth-amgylchedd-hinsawdd newydd ar gyfer 2014-2020.

Rydyn ni'n croesawu'r newid arfaethedig ym mhroffil cyllideb y CDG a fydd â'r canlyniad o gynydd pedwarplyg mewn gwariant ar goetiroedd. Bydd buddsoddiad felly'n rhoi cyfle i gyrraedd ystod o amcanion sy'n ymwneud ag atafaeliad carbon; lliniaru'r risg o lifogydd; gwell cydnerthedd busnes; ansawdd dŵr; bioamrywiaeth; tirwedd a mynediad cyhoeddus i gefn gwlad.

Rydyn ni'n cefnogi'r cynnig i roi mwy o bwyslais ar gynlluniau rheoli tir targedol (rhagdybir fod pennawd y gyllideb yma'n cynnwys y cynllun rhwydwaith cynefin arfaethedig). Fel y dywedwyd yn flaenorol, dylid ail-ganolbwyntio Glastir Sylfaenol i sicrhau ei fod yn cyflenwi'n fwy effeithiol yn erbyn pob un o'r targedau strategol a restrir yn y ddogfen ymgynghori.

Cyfoeth Naturiol Cymru/ Natural Resources Wales

Mawrth 2014

²⁴ *Environment Agency, 2010. Working with Natural Processes to Manage Flood and Coastal erosion Risk*

²⁵ "Estimating the Scale of Future Environmental land Management Requirements for the UK". Cao, Y., Elliott, J., McCracken, D., Rowe, K., Whitehead, J. and Wilson L. Report to Land Use Policy Group by ADAS & Scottish Agricultural College. December 2009.